

# Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint – Adolygiad Dynladdiad Domestig

**Crynodeb Gweithredol o Adroddiad Trosolwg**

**Dynladdiad Marie ar 14 Medi, 2014**

2017

**Cadeirydd y Panel: Jenny Williams: Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal  
Cymdeithasol ac Addysg, Conwy.**

**Awdur Annibynnol: Sue Maskell. MA AASW CQSW**

## Diolchiadau

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod wrth greu'r fath adroddiad, ein bod yn edrych ar amgylchiadau o fyw neu farw rhywun oedd yn cael eu gwerthfawrogi ac yn annwyl iawn i'w theulu, a bod y teulu hynny wedi eu gadael i ymdopi â'u sioc â'u tristwch. Gallwn ond obeithio y bydd ein hymdrechion i ddysgu gwersi o golled trasig Marie ( ffugenw), heb ychwanegu i'w pryderon. Felly, wrth lunio'r adroddiad hwn, mae asiantaethau wedi coladu gwybodaeth bersonol a sensitif o dan amodau o gyfrinachedd llym; gan gydbwysu'r angen i gynnal preifatrwydd y teulu a'r angen i'r asiantaethau ddysgu'r gwersi hynny mewn perthynas ag ymarfer, sydd wedi cael eu nodi yn adolygiad yr achos hwn a hefyd wrth gwrs, cydnabod bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn ôl gofyniad y Swyddfa Gartref.

Yn ychwanegol at hynny, ac efallai'n anarferol, rydym wedi cysylltu â, a/neu gyfweld cyn partneriaid y troseddwr, a aeth at yr heddlu ar ôl llofruddiaeth Marie. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu parodrwydd i fod yn rhan o'r broses, gan wybod maint y gofid oeddent wedi ei brofi yn gwneud y fath beth. Mae'n bwysig cydnabod mai eu dymuniadau oedd bod gwersi yn cael eu dysgu o'u profiadau, ac y byddai'r gwersi hyn yn atal niwed i eraill.

## **1. CYFLWYNIAD**

**1.1. Roedd yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn yn archwilio'r amgylchiadau i farwolaeth Marie (ffugenw). Roedd Marie yn ddynes 45 mlwydd oed oedd yn byw mewn pentref gwledig bychan yn Sir y Fflint. Llofruddiwyd Marie ar 14 Medi, 2014. Roedd Marie wedi cael ysgariad ac nid oedd erioed wedi byw gyda'r troseddwr (P1).**

**1.2. Roedd Marie yn aelod annwyl iawn o'r teulu, roedd ganddi ddau o blant, a Mam, brodyr a chwiorydd, nithod a neiod, i gyd yn byw yn yr ardal leol. Felly roedd Marie yn Fam, yn chwaer, yn ferch ac yn fodryb, ac yn cael ei cholli'n arw gan ei phlant a'u theulu. Roedd gan Marie fywyd cartref sefydlog ac yn gweithio i gwmni mewn tref gyfagos.**

**1.3 Yn ystod cyfnod ymchwiliad yr heddlu, sefydlwyd bod Marie ond wedi cyfarfod P1, y dyn a'i llofruddiwyd yn ddiweddar. Cyfarfod drwy wefan canlyn wnaethant; nad yw'n anarferol erbyn heddiw. Roeddent wedi bod yn canlyn am ychydig wythnosau'n unig cyn marwolaeth Marie; mae'r amser penodol yn aneglur, ond tybiedig rhwng pedwar a chwe wythnos. Roedd y berthynas felly yn ei ddyddiau cynnar, ac nid oedd P1 a Marie yn byw gyda'i gilydd.**

**1.4 Ar 13 Medi, 2014, bu Marie allan gyda'i nai yn y dafarn mewn tref gyfagos ac ymunodd P1 â nhw yno. Dywedodd aelod o'r teulu wrth awdur yr adroddiad, bod Marie wedi crybwyll bod P1 yn ddyn cenfigennus ac yn feddiannol, ac o ganlyniad roedd ei theulu'n credu bod Marie wedi bwriadu dod â'r berthynas gyda P1 i ben. O wybod mai dyma farn y teulu, mae'n ddiddorol bod P1 wedi ymuno Marie yn y dafarn. Yna, dychwelodd Marie i'w chartref heb P1, gyda'i nai yn ei danfon gartref yn gynnar y noson honno, oherwydd ei bod yn gweithio drannoeth. Mae'n ymddangos bod P1 wedi cyrraedd cartref Marie nid yn hir wedi hynny.**

**1.5 Gwnaed galwad 999 o ffôn symudol Marie ar ôl iddi ddychwelyd adref o'r dafarn. Dywedodd y telathrebydd nad oedd unrhyw beth i'w glywed, felly ni phasiwyd yr alwad ymlaen i'r gwasanaethau brys. Yn ystod cyfnod yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn, gofynnwyd i'r heddlu wirio amgylchiadau'r galwad ffôn hwn.**

**1.6 Dywedodd yr heddlu wrth awdur yr adroddiad bod trawsgrifiad o'r galwad 999 wedi cael ei wneud, ar ôl marwolaeth Marie. Dim ond ar ôl gwelliannau i'r sain bu'n bosib gwneud trawsgrifiad, a hyd yn oed ar ôl hynny, nid oedd yr alwad yn glir. Yn anffodus, mae'r dystiolaeth yn profi nad oedd yn bosib i'r telathrebydd glywed beth oedd yn cael ei ddweud gan Marie na P1 ar y pryd. Gwnaed yr alwad am 19:07 ar 13 Medi ac roedd ond yn 12 eiliad o hyd. Nid oes unrhyw beth yn cael ei glywed yn y trawsgrifiad i brofi bod Marie yn gofyn am help ai peidio.**

**1.7 Ymosododd P1 ar Marie ar 13 Medi, 2014. Yn ystod y digwyddiad, fe ymosododd arni a'i thagu. Cyfaddefodd P1 ei fod wedi aros i ffonio am ambiwlans a chafodd hyn ei grybwyll yng nghrynodeb y Barnwr yng ngwrandawriad y ddedfryd. Pan gafodd P1 ei**

gyfweld ar gyfer pwrpas yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn, fe gadarnhaodd o'i wirfodd ei hun, ei fod wedi aros am amser hir cyn ffonio am ambiwlans.

- Am 02:35 ar 14 Medi, 2014, derbyniodd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru alwad brys gan ddyn, nawr yn hysbys mai P1 ydoedd, oedd yn datgan ei fod wedi dod o hyd i'w gariad (Marie) yn anymwybodol ar lawr ar ôl iddi fod yn yfed, rhoddwyd gwybodaeth i'r galwr ynghylch dadebru.
- Anfonwyd Ymatebwr Cyntaf Cymunedol i'r digwyddiad; y person cyntaf i gyrraedd y cartref am 02:50.
- Am 02:57 cadarnhaodd yr Ymatebwr Cyntaf Cymunedol bod Marie yn profi ataliad ar y galon. Ar ôl i'r ambiwlans gyrraedd, dechreuwyd uwch ddadebriad cynnal bywyd, ond yn drasig iawn cadarnhawyd bod Marie wedi marw am 03:09.
- Am 03:11 hysbyswyd yr heddlu am y digwyddiad, ac fe gyrhaeddodd nhw'r cyfeiriad am 03:35.
- Am 03:44, yn dilyn ymholiadau cychwynnol, arestwyd P1 ar amheuaeth o lofruddio Marie.
- Ar 18:31 ar 16 Medi, 2014, cyhuddwyd P1 yn ffurfiol o lofruddio Marie ac fe'i gadwyd yn y ddalfa, wrth aros am achos yn Llys y Goron.

1.8 O ganlyniad, ar 19 Rhagfyr, 2014, ymddangosodd P1 o flaen Llys y Goron; plediodd yn euog i lofruddio Marie, a chafodd ddedfryd o fywyd mewn carchar gydag argymhelliad bod yn rhaid iddo dreulio 17 blwyddyn a hanner dan glo cyn cael ei ystyried am ryddhad. Yn ystod cyfeiriad ei ddedfryd, dywedodd y Barnwr bod Marie wedi marw o achos asffycsia a thagiad, a'i bod wedi cael ei tharo'n ddifrifol mewn ymosodiad ffyrnig.

## **2. Y Broses Adolygu**

**2.1 Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu'r broses a wnaed gan Panel Adolygu Dynladdiad Domestig Sir y Fflint wrth adolygu marwolaeth Marie.**

**2.2. Ar 26 Medi, 2014 galwodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol am gyfarfod arbennig, lle cytunwyd bod amgylchiadau marwolaeth Marie yn diwallu'r meini prawf ar gyfer adolygiad dynladdiad domestig, ac y dylid cynnal adolygiad yn unol â Chanllaw'r Swyddfa Gartref a ddatblygwyd gan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint.**

**2.3 Ar 29 Medi, 2014, hysbysodd Cadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir y Fflint, y Swyddfa Gartref yn ffurfiol o'r bwriad i gynnal Adolygiad Dynladdiad Domestig.**

**2.4 Yn y cyfarfod panel cyntaf, adroddwyd gan Heddlu Gogledd Cymru bod achosion wedi eu dwyn mewn perthynas â throseddau i bum dynes, a ddaeth ymlaen yn dilyn adroddiadau am lofruddiaeth Marie, ac oedd yn ddioddefwyr o droseddau trais domestig a gyflawnwyd iddynt gan P1.**

**2.5 O ganlyniad i ymchwiliad a wnaed i'w honiadau, cyhuddwyd P1 gyda saith cyhuddiad pellach o Gwir Niwed Corfforol mewn perthynas â 4 o'r dioddefwyr. Yn ei ymddangosiad yn y llys, plediodd P1 yn ddieuog i'r cyhuddiadau ychwanegol hyn. Oherwydd ei fod wedi pledio'n euog i'r lofruddiaeth, gwnaed penderfyniad na fyddai'r saith cyhuddiad ychwanegol yn mynd ymhellach a gorchynnwyd iddynt 'aros ar ffeil'.**

**2.6 Cytunwyd mewn cyfarfod panel ym mis Ionawr 2015, i gyfathrebu gyda Phrif Erlynydd y Goron yng Nghymru, yn amlinellu dymuniad y panel i ymestyn paramedrau'r Adolygiad Dynladdiad Domestig i gwmpasu cyfnod perthnasau P1 gyda'r dioddefwyr honedig ychwanegol. Er mwyn i'r Panel allu gwneud hyn, gofynnwyd am awdurdod Prif Erlynydd y Goron i gynnwys y 7 erlyniad a orchynnwyd i 'aros ar ffeil'. Darparodd Prif Erlynydd y Goron yr awdurdod hwn i ddefnyddio'r achosion hyn i ffurfio rhan o'r adolygiad.**

**2.7 Yn ystod adolygiad cychwynnol o'r achosion hyn, darganfu'r panel bod rhai o berthnasau yn dyddio'n ôl i 1991. Felly, cytunodd y panel y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Mai 2005 a 14 Medi, 2014. Y rheswm dros y penderfyniad hwnnw oedd bod y panel wedi dod i'r casgliad bod prosesau a gweithdrefnau wedi newid yn sylweddol ers 2015 ac felly byddai cyd-destun yr ymosodiadau blaenorol yn cael eu mesur yn erbyn prosesau sydd wedi newid yn sylweddol erbyn hyn, ac o ganlyniad byddai unrhyw wersi sy'n debygol o gael eu dysgu wedi achosi newid mewn cyfraith, polisi ac ymarfer.**

**2.8 Serch hynny, roedd eithriad ac roedd hyn oherwydd, ar ôl i awdur yr adroddiad Adolygiad Dynladdiad Domestig gael mynediad at y datganiadau gan y 5 dynes a ddaeth ymlaen, darganfuwyd bod honiadau yn erbyn P1 yn datgan ei fod wedi parhau i wneud**

bygythiadau difrifol yn erbyn dynes, a elwir yn V2 o'r pwynt hwn ymlaen. Felly, er bod perthynas V2 a P1 wedi cymryd lle cyn amserlen 2005 yr adolygiad (V2 oedd gwraig gyntaf P1), cytunodd y panel bod cynnig i V2 fod yn rhan o gyfweiliad fel rhan o'r broses; derbyniodd V2 y cynnig.

2.9 Yn y pendraw, hysbyswyd y panel bod cyfanswm o 8 o ferched wedi mynd at Heddlu Gogledd Cymru ar ôl adroddiadau am farwolaeth Marie yn y cyfryngau. Tra bo saith o'r merched hyn wedi darparu datganiad ysgrifenedig ffurfiol i'r heddlu; siaradodd yr heddlu ag un ddynes, ond fe wrthododd hi'r cyfle i ddarparu datganiad ysgrifenedig ffurfiol.

2.10. Eto gyda chaniatâd Prif Erlynydd y Goron, cafodd yr awdur annibynnol fynediad i'r holl ddatganiadau, a chofnodion ffurfiol o'r trafodaethau gyda'r ddynes nad oedd yn dymuno gwneud datganiad ffurfiol. Darllenodd yr awdur ddau ddatganiad a'r cofnod ysgrifenedig ar ôl y 5 cyntaf, ac roedd y panel yn ystyried y rhain i fod mewn categori gwybodaeth ychwanegol, yn bennaf oherwydd nad oeddent yn achosi unrhyw gyhuddiadau fel rhan o'r achos yn dilyn marwolaeth Marie.

2.11 Yn dilyn adolygiad o'r holl ddatganiadau gan awdur yr adroddiad, cytunodd y panel y dylid gofyn i dair o'r 5 merch wreiddiol a wnaeth ddatganiad a oeddent yn fodlon cael eu cyfweld fel rhan o'r Adolygiad Dynladdiad Domestig. O'r 5 ddynes hyn, gwnaeth pedair ohonynt ddatganiad a oedd yn ganlyniad i 7 cyhuddiad. Yn ychwanegol at hyn, byddai angen gofyn i'r pum ddynes am eu caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd i'r heddlu fel rhan o'r adolygiad hwn. Rhoddodd pob un eu caniatâd yn ysgrifenedig.

2.12. Cafodd tair o'r merched eu cyfweld yn uniongyrchol gan yr awdur, dwy yng nghwmni aelod arall o'r panel. Roeddem wedi cynnig gweld un ddynes, V3, ar ôl llunio'r adroddiad Adolygiad Dynladdiad Domestig, ond fe wrthododd y cynnig. Siaradom â dynes arall, V1, dros y ffôn. Ni ffeiliwyd cyhuddiad mewn perthynas ag ymosodiad honedig ar V1, a oedd yn adnabod P1 ers ei phlentyndod, a chyfarfu ag o eto o fewn amserlen yr Adolygiad Dynladdiad Domestig, ar-lein.

2.13. Codwyd mater arall pan hysbyswyd y panel (o ganlyniad i ddarllen y datganiadau ynghyd â'r wybodaeth a chafwyd mewn llinell amser gan yr heddlu) bod cynhadledd achos amddiffyn plant wedi'i chynnal mewn perthynas â phlant cyn-wraig arall P1. (O'r pwynt hwn ymlaen gelwir ei gyn-wraig o'i ail briodas yn V3). Er bod y gynhadledd hon wedi'i chynnal tu allan i gyfnod yr adolygiad, roedd y ffaith bod plentyn wedi'i gynnwys gan P1 mewn digwyddiad o Gam-drin Domestig wedi arwain y panel i wneud cais am yr adroddiad cynhadledd achos i'w ystyried fel rhan o'r Adolygiad Dynladdiad Domestig. Roedd hi'n fis Ionawr 2016 erbyn derbyn cofnodion y gynhadledd, oherwydd problemau gyda chydysniad a hefyd materion ynghylch sicrhau ym mha awdurdod y digwyddodd y gynhadledd achos.

2.14. Gellir crynhoi canlyniad cael mynediad at y wybodaeth uchod fel y ganlyn:

A. Pe na fyddai tystion eraill wedi dod ymlaen, byddai dynladdiad Marie wedi achosi Adolygiad Dynladdiad Domestig cryno oherwydd y ffaith bod perthynas P1 a Marie ond wedi para tua 4 i 6 wythnos. Mae'r ffaith bod datganiadau gan dystion eraill wedi achosi saith cyhuddiad a adawyd ar ffeil, yn nodi efallai bod gwersi i'w dysgu am yr ymateb i, a'r rheolaeth o achosion o Gam-drin Domestig ar draws yr asiantaethau cyn dynladdiad Marie, a'r cyswllt ymhob un o'r achosion hyn oedd P1.

B. Nododd y Panel bod gwersi tebygol i'w dysgu yn codi yn ystod cyfnod pan caiff cyfraith, prosesau a gweithdrefnau yn ymwneud â Cam-drin Domestig eu moderneiddio ac agweddau wedi newid, yn y proffesiwn a hefyd ymysg y cyhoedd.

C. Oherwydd cynhaliwyd Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant, roedd y Panel yn credu efallai bod gwersi i'w dysgu ym maes amddiffyn plant hefyd, er bod y gynhadledd hon yn disgyn y tu allan i amserlen wreiddiol yr adolygiad. Serch hynny, roedd yn disgyn o fewn cyfnod pan nodwyd eisoes effaith Cam-drin Domestig a'i gysylltiad â cham-drin plant.

D. Llofruddiaeth Marie oedd canlyniad llunio'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn, ac felly, wrth ymchwilio i wybodaeth arall a roddwyd gan y merched, cytunwyd na fyddai adolygiad llawn o'u hachosion o ganlyniad i hynny, ond er hynny, pe byddai'r angen, byddai gofyn i'r asiantaethau eraill gyfrannu a chyflenwi gwybodaeth i'r panel ei hadolygu.

2.15. Dechreuodd proses yr Adolygiad Dynladdiad Domestig ym mis Ionawr 2015, ond oherwydd yr amgylchiadau uchod roedd oedi, ac ar y pwynt hwnnw, nid oedd awdur i'r adroddiad wedi cael ei benodi. Aeth y broses adolygu rhagddi erbyn mis Gorffennaf 2015 pan aeth awdur yr adroddiad i'w chyfarfod cyntaf gyda'r panel.

2.16. Mae hyn yn anarferol mewn adroddiad Adolygiad Dynladdiad Domestig oherwydd ehangwyd cwmpas yr Adolygiad Dynladdiad Domestig gyda'r nifer o dystion a ddaeth ymlaen ar ôl marwolaeth drasig Marie ym mis Medi 2014, oherwydd gweithgareddau P1. Cymerodd cyfnod cwblhau'r adroddiad llawer hirach na'r disgwyl oherwydd y wybodaeth a ddaeth i'r amlwg a pha banel y dylid ystyried fel rhan o'r adolygiad. Mae manylion llawn y rhesymau amrywiol dros yr oedi wedi'u nodi yn y prif adroddiad sy'n cynnwys y cylch gorchwyl.

### 2.17. Y Teulu

Fel rhan o'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn, cafodd teulu Marie gynnig i gymryd rhan yn yr adolygiad. Gwnaed y cynnig yn wreiddiol gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a oedd wedi cefnogi'r teulu yn ystod yr ymchwiliad. Yna drwy lythyrau gan Gadeirydd y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig gyda thaflen y Swyddfa Gartref ynghlwm. Arweiniodd y cyfathrebiad at gyfarfod rhwng awdur yr adroddiad a chwaer Marie. Cytunwyd gyda chwaer Marie, os oedd aelodau eraill o'r teulu yn dymuno cymryd rhan yn uniongyrchol y byddai hyn yn cael ei drefnu, ac fe gytunodd i ddweud wrthynt am

y trefniant, a rhoddwyd taflenni ychwanegol iddi er mwyn i'r teulu ddeall proses a phwrpas cymryd rhan yn yr adolygiad. Cyfarfu'r awdur gyda chwaer Marie eto i fynd drwy'r adroddiad a'r argymhellion ym mis Gorffennaf 2016. Ers hynny, diweddarwyd y teulu drwy gyfrwng llythyr.

2.18. Er bod cyfarfod wedi cael ei drefnu'n wreiddiol gyda chyn-w'r Marie, sef tad ei phlant, nid aeth i'r cyfarfod fel y trefnwyd. Fodd bynnag, cynigwyd cyfleoedd pellach iddo a'i blant wneud hynny. Gofynnodd i gyfarfod gyda'r awdur pan gwblhawyd yr adroddiad, a digwyddodd y cyfarfod hwn. Dywedodd wrthym ei fod wedi gwneud y plant yn ymwybodol ac wedi cael trafodaeth gyda nhw ynglŷn â'r broses. Dangosodd awdur yr adroddiad gynnwys yr adroddiad iddo oedd yn berthnasol i Marie, ac argymhellion yr adolygiad.

2.19. Yn y cyfarfod cyntaf gyda chwaer Marie, a ddywedodd wrthym ei bod yn cynrychioli teulu Marie, y prif fater a godwyd oedd yr alwad 999 mud yr ydym yn credu bod Marie wedi ei gwneud ar noson ei llofruddiaeth. Mae'r ffaith bod yr alwad wedi'i wneud yn peri gofid mawr i'r teulu, sy'n credu bod Marie yn gobeithio y byddai help ar droed, ac eto roedd y gobaith hwnnw'n ofer. Trafododd y panel y mater yn fanwl, ac maent wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol i ffonio am help, sydd i'w ddilyn ar ddiwedd y crynodeb hwn. Ar ôl y broses Sicrhau Ansawdd a wnaed gan y Swyddfa Gartref, awgrymwyd y dylem gyfeirio at y Cynllun Datrysiad Distaw, ac rydym wedi gwneud hynny. Er y dylem fod yn glir bod yr alwad a wnaeth Marie ond yn 12 eiliad o hyd ac ni chlywodd y telathrebydd unrhyw gais. Mae'n ymddangos nad yw'r cyhoedd na nifer o weithwyr proffesiynol yn gwybod llawer am y system hon. Yn amlwg, mae angen datrysiad i'r sefyllfa honno, fel argymhelliad yr IPCC ar ddiwedd 2016, ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn.

#### Cyfranogwyr eraill a'r cynnig i gymryd rhan

2.20. Bu cyfle hefyd i blant P1, sy'n oedolion, i gymryd rhan. Cafodd hyn ei hwyluso drwy eu mam. Gwrthodwyd y cynnig.

2.21. Cafodd y troseddwr, P1, ei gyfweld fel rhan o'r adolygiad hwn hefyd. Fe wnaeth ddau bwynt. I grynhoi; un pwynt oedd ei fod yn meddwl bod cwrdd â phobl ar-lein yn llawn problemau a bod pobl yn anaml iawn yn dweud y gwir am eu hunain, ac o ganlyniad roedd yn credu y dylid cael mwy o ddiogelwch ar y gwefannau hyn a mwy o wybodaeth am y risgiau. Roedd yr ail bwynt yn sôn am ei iechyd meddwl. Roedd P1 yn teimlo y dylai fod wedi dyfalbarhau wrth geisio cymorth am ei ofid meddyliol, ac y teimla fel na ddylai fod wedi dweud ei fod yn iawn, pan mewn gwirionedd nid oedd iach. Roedd P1 hefyd yn teimlo nad oedd blaenoriaeth ddigonol i wasanaethau iechyd meddwl.

2.22. Yr asiantaethau sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad yw:-



- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Cyflogwr Marie
- Cyflogwr P1
- Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint
- Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir y Fflint
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Iechyd Sandbach
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol Wrecsam
- Gwasanaeth Erlyn y Goron a roddodd ganiatâd i ddefnyddio datganiadau mewn perthynas â throseddau sy'n cael eu cadw ar ffeil

**2.23.** Gofynnwyd i'r asiantaethau adrodd yn ôl trefn y ddiwyddiadau am eu cyswllt gyda'r dioddefwr a/neu'r troseddwr cyn y llofruddiaeth. Pan nad oedd gan asiantaethau'r un cysylltiad neu gyswllt sylweddol, fe hysbyson nhw'r adroddiad fel y bo'n briodol. Yn nhermau'r cylch gorchwyl, roedd yr Adolygiad Dynladdiad Domestig yn trafod cyfnod o ddeng mlynedd cyn marwolaeth Marie. Yn ychwanegol, roedd yr adolygiad yn edrych ar y gynhadledd a gynhaliwyd yn 2001, a oedd tu allan i'r amserlen wreiddiol, ond roedd y panel yn teimlo ei fod yn berthnasol i hanes y troseddwr.

**2.24.** Dim ond un o'r asiantaethau yng Ngogledd Cymru a restrwyd uchod ni chafodd unrhyw gysylltiad gyda'r dioddefwr na'r troseddwr, a'r asiantaeth honno oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. O'r rhai a gysylltwyd, ni chafodd yr un ohonynt unrhyw fath o gysylltiad gyda Marie yn ystod y cyfnod roedd hi'n adnabod P1, tu allan i'r hynny sy'n arferol h.y. yr ysgol, neu gyswllt gyda Meddyg Teulu, tan iddynt gael eu galw i'w chartref ar noson ei llofruddiaeth. Bu 8 asiantaeth mewn cyswllt â P1. Eto, ni fu cyswllt gyda'r un o'r rhain yn ystod ei berthynas gyda Marie nes noson ei llofruddiaeth. Felly, gydag eithriad y cyswllt arferol byddai unigolyn yn ei gael gyda'i gyflogwr, nid oedd cysylltiad gydag unrhyw asiantaeth, boed gyda'r dioddefwr, Marie, neu'r troseddwr, P1 yn ystod cyfnod byr eu perthynas.

### **3 Cylch Gorchwyl**

#### **3.1. Bwriad yr Adolygiad Dynladdiad Domestig yw:**

- Sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu o'r dynladdiad domestig o ran y ffordd mae gweithwyr proffesiynol lleol a sefydliadau yn gweithio'n unigol neu'n cydweithio i ddiogelu dioddefwyr;

- Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn, a rhwng asiantaethau, sut ac o fewn pa derfynau amser y byddent yn cael eu gweithredu, a beth sy'n debygol o newid o ganlyniad;
- Gweithredu'r gwersi hynny yn ymatebion gwasanaethu, yn cynnwys newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau fel y bo'n briodol; a
- Atal dynladdiad domestig a gwella ymatebion gwasanaeth i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy weithio o fewn, a rhwng asiantaethau.

(Mae'r Cylch Gorchwyl i'w weld yn llawn yn atodiad yr adroddiad Adolygiad Dynladdiad Domestig)

#### 4. Materion allweddol

4.1. Darparodd yr Adolygiad Dynladdiad Domestig gyfle i ddadansoddi gwybodaeth yr asiantaethau, teulu Marie, y troseddwr, a phartneriaid blaenorol y troseddwr, gyda'u datganiadau i'r heddlu ar ôl marwolaeth Marie yn arwain ar 7 cyhuddiad sy'n cael eu cadw ar ffeil.

4.2. Gofynnodd Teulu Marie bod yr adolygiad yn ystyried yn benodol y problemau sy'n codi o ddefnyddio galwadau 999 mud i ofyn am help. Trafododd y panel hyn yn fanwl, ac maent wedi gwneud argymhelliad o ran galwadau 999 mud. Fe wnaethom hefyd ystyried y Cynllun Datrysiadau Distaw ar ôl derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref fel y cyfeirir ato yn niweddglo'r adroddiad cryno hwn.

4.3. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried a oedd unrhyw un o naw nodwedd warchoddedig y Deddf Cydraddoldeb wedi dylanwadu ar benderfyniadau'r sefydliadau yn eu cysylltiadau gyda Marie, y Troseddwr, a'r dioddefwyr eraill y cynhaliwyd cyfweiliad gyda nhw yn ystod yr adolygiad. Mae'r panel yn fodlon nad oedd unrhyw faterion cydraddoldeb.

4.4. Mewn perthynas â thri bwriad cyntaf yr Adolygiadau Dynladdiad Domestig a nodwyd uchod, rydym wedi canfod:

- Nad oedd adroddiadau o Gam-drin Domestig i unrhyw asiantaeth yn ystod perthynas byr Marie â P1. Nid oedd arwydd drwy gysylltiad arferol mae unigolion yn ei gael gyda'u man gwaith neu eu Meddyg Teulu, neu mewn perthynas â'r plentyn sydd dal yn yr ysgol (mewn unrhyw gyswllt a wnaed gyda'r ysgol), bod unrhyw beth o'i le. Felly, nid oedd mecanwaith i'r asiantaethau gysylltu gydag un ai Marie, neu ei gilydd yn ystod perthynas Marie a P1.
- Nid oeddem wedi nodi unrhyw achos a fyddai wedi ysgogi Marie i gysylltu gydag asiantaethau neu ofyn am help, cyn noson ei llofruddiaeth, pan gredir ei bod wedi gwneud galwad 999 byr a mud.
- Nid oes tystiolaeth, hyd y gwyddom, bod gan unrhyw asiant reswm dros weithredu, neu fod unrhyw asiant wedi colli cyfle i nodi bod unrhyw beth o'i le ym mywyd Marie. Roedd y perthynas mor fyr, fel y nodwyd uchod, fel nad oedd

asiantaethau wedi derbyn unrhyw adroddiadau o unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon a fyddai wedi ysgogi ymyrraeth.

- O wybod hyd y berthynas, a diffyg tystiolaeth bod unrhyw achos i Marie gysylltu ag asiantaeth neu achos i asiantaeth gysylltu â hi, nid oeddem wedi canfod y byddai unrhyw weithred ar ran unrhyw asiantaeth wedi atal Marie rhag marw. Wrth feddwl yn ôl rydym wedi ystyried tuedd yn achos marwolaeth Marie, ac rydym wedi dod i gasgliad na fyddai'r asiantaethau wedi gallu gwneud unrhyw beth i atal ei llofruddiaeth.
- Hyd yn oed petai manylion am orffennol P1 wedi cael eu coladu'n fanwl mewn cofnodion, ni fyddai natur ddifrifol ymddygiad P1 wedi bod yn amlwg i unrhyw un, heblaw bod Marie, neu drydydd parti oedd yn pryderu amdani, neu ddiogelwch ei phlant wedi cael rheswm i ddefnyddio Cynllun Datgelu Cam-drin Domestig neu Gynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol. Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod Marie wedi cael rheswm i gynnal unrhyw wiriad ar P1 yn yr ychydig wythnosau roedd hi'n ei adnabod. Nac ychwaith ydym ni wedi canfod unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw asiant wedi dod i gyswllt â Marie yn ystod y cyfnod hwnnw, a chael rheswm eu hunain i gynnal gwiriad cefndirol ar P1 neu gynghori Marie ar unrhyw beryglon yr oedd hi'n agored iddynt.
- Hyd yn oed os oedd gan Marie reswm dros wirio cefndir P1, gyda'r heddlu er enghraifft, ni fyddai unrhyw gofnod ar gael o'i weithgareddau ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu cyn 2005, os nad oedd y digwyddiad wedi achosi cyhuddiad. Fodd bynnag, byddai manylion y digwyddiadau hyn ar gael ar systemau heddlu lleol ac yn dibynnu ar eu natur h.y. os oeddent yn cynnwys amddiffyn plant / cam-drin domestig efallai y byddent yn cael eu cofnodi ar Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, oes oedd gan yr heddlu lleol lle digwyddodd y digwyddiad gofnod electronig o'r digwyddiad ar eu systemau.

4.5. Os oes un peth rydym wedi ei ddysgu o'r adolygiad hwn, yw bod cofnodi ymddygiad troseddol yn bwysig iawn, yn ogystal â gallu asiantaethau statudol i gyrchu'r wybodaeth honno. Petai system heddiw ar waith yn 2001, byddai wedi nodi'r troseddau yr oedd P1 yn gyfrifol amdanynt, ond heb ei ddyfarnu'n euog amdanynt yn Wrecsam, a system rhannu gwybodaeth well rhwng asiantaethau, pan gyflawnodd drosedd Ymosod Cyffredin yn Sir y Fflint yn 2006.

## **5. Gwersi i'w dysgu/Atal Digwyddiadau Pellach o Ddynladdiadau Domestig**

O ran pedwerydd amcan yr Adolygiad Dynladdiad Domestig, atal digwyddiadau pellach o ddynladdiadau domestig a cham-drin domestig, roeddem wedi canfod tri pheth pwysig mewn perthynas â llofruddiaeth Marie.

### **5.1. Galwadau 999 mud**

**5.1.1: Rydym yn credu bod Marie yn pryderu am ei diogelwch y noson honno ar 13 Medi, 2014, oherwydd tybir mai hi oedd wedi ffonio 999 yn chwilio am help am 19:07. Rydym yn ansicr a oedd hi wedi ceisio siarad, ac yn cael ei rhwystro rhag gwneud hynny gan P1, neu a oedd hi wedi gwneud galwad mud gan gredu y byddai rhywun yn deall o'r alwad bod angen help arni ac y byddent yn gallu olrhain yr alwad a dod i'w hachub. Nid yw'r fersiwn cliriach o'r alwad a recordiwyd yn ein helpu wrth geisio dod i gasgliad.**

**5.1.2: Mae'n chwedl fodern, sydd mwy na thebyg yn cael ei gefnogi gan raglenni Teledu, bod galwadau 999 mud yn cynhyrchu ymateb i argyfwng. Er enghraifft, daeth yn beth cyffredin i rieni roi ffôn symudol i'w plant fel eu bod yn gwybod lleoliad eu plant, ac mae'r rhan fwyaf ohonom yn credu os yw'r plentyn yn ffonio 999 y byddant yn cael eu holrhain os oedd angen cymorth arnynt. Mae hyn yn amlwg yn ffug, oherwydd fel rydym wedi darganfod, mae gymaint o 'alwadau mud' bob dydd ac nid yw'r rhain i gyd yn cael eu pasio i'r heddlu. (Rydym yn nodi bod nifer o 'apiau rhannu lleoliad' ar gael ar ffonau clyfar, sy'n cael eu defnyddio i alluogi defnyddwyr wybod lleoliadau eraill a rhannu eu lleoliadau eu hunain drwy'r Ap, ac mae rhai pobl yn lawrlwytho'r Ap hwn i ffonau eu plant).**

**5.1.3: Mae'r nifer enfawr o alwadau mud (hyd at 30 miliwn o alwadau brys bob blwyddyn, a miloedd o'r rhain nad ydynt yn alwadau brys ond yn cael eu gwneud gan blant neu ar ddamwain) yn golygu bod unrhyw gynllun i'w olrhain yn anghynnaladwy o fewn yr adnoddau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol. Pwynt arall yw, bod llinell dir yn gallu cael ei olrhain i gyfeiriad penodol, ond byddai ffôn symudol ond yn gallu cael ei olrhain i ardal cwrmpas y ffôn symudol. Nid yw rhai ffonau 'Talu wrth Fynd' yn cael eu cofrestru'r un peth â ffonau gyda chontract. Felly, bydd diogelu dioddefwyr posib a'u teuluoedd ond yn digwydd wrth chwalu'r chwedl bod help ar gael i unrhyw rai os ydyn nhw'n gwneud galwad 999 mud. Rydym yn cydnabod, yn dilyn sylwadau'r Swyddfa Gartref, bod system Datrysiadau Distaw ar waith. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r cyhoedd na nifer o weithwyr proffesiynol yn gwybod llawer am y system hon. Yn amlwg, mae angen datrysiad i'r sefyllfa honno, fel argymhelliad yr IPCC ar ddiwedd 2016, ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn.**

**5.1.4: Trafododd y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig y mater yn fanwl, ac maent o'r farn petai Marie wedi gwneud yr alwad 999 mud ei hun, roedd hyn gyda'r disgwyl y byddai'n derbyn cymorth. Mae'n debyg mai dyma farn nifer o bobl eraill hefyd, felly, er diogelwch, mae'n bwysig bod y neges yn cael ei chylchredeg yn genedlaethol, nad yw galwadau 999 mud, yn arbennig o ffonau symudol, yn sicr o gynnig help. Efallai byddai systemau Datrysiadau Distaw o help mewn angen dybryd a'r diffyg i allu siarad, a fyddai'n gymwys i Marie, ond fel y nodwyd uchod mae angen llawer mwy o gyhoeddusrwydd ar y system i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol. Yn ychwanegol, yn yr achos hwn, roedd yr alwad mud yn eithriadol o fyr ac ond yn 12 eiliad o hyd.**

## **5.5. Canlyn Ar-lein**

Roedd y panel yn nodi bod rhai risgiau yn gysylltiedig â chyfarfod partner newydd ar-lein ond bod y risgiau hyn yn cynyddu i ryw raddau drwy ddefnydd y cyfryngau cymdeithasol, sy'n hwyluso troseddwr i ddod o hyd i dargedau newydd dros ardaloedd daearyddol eang. Daethom i'r casgliad bod angen mwy o wybodaeth ar y cyhoedd ynglŷn â chymryd rhagofalon wrth gyfarfod pobl newydd, o wybod y cynnydd yn y math hwn o ganlyn.

### **5.3. Cyswllt y troseddwr â Phractis Cyffredinol**

**5.3.1. Deilliodd y ddau argymhelliad olaf mewn perthynas ag adran yr adolygiad sy'n ymwneud â marwolaeth Marie, o hanes cronolegol ymgynghoriad y troseddwr gyda'i Feddygon Teulu. Fel y nodir uchod, cynhaliwyd cyfweiliad gyda P1 fel rhan o'r adolygiad hwn, ac fe roddodd ei ganiatâd i gyrchu ei gofnodion iechyd. Dywedodd P1 y dylai fod wedi dyfalbarhau wrth chwilio am help ynghylch ei broblemau, a ddiffiniodd fel problemau iechyd meddwl. Darganfu'r adolygiad bod tystiolaeth bod P1 yn dweud y gwir a'i fod wedi gofyn am help o dro i dro. Yn gyntaf, fe ofynnodd am help o'i wirfodd ei hun, gan wasanaeth camddefnyddio sylweddau yn 2001 pan gynigwyd apwyntiad iddo, ond nid aeth. Roedd yn gofyn am help gan ei Feddyg Teulu o dro i dro am beth oedd yn cael ei ddiffinio fel gofid meddyliol; o'r wybodaeth y cawsom, mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfnod pan ddaeth ei berthnasau i ben. Ar i'r Meddyg Teulu ei atgyfeirio, daethom i wybod nad oedd yn parhau gyda thelerau ei ymgysylltiad gyda'r gwasanaethau, ac fe arweiniodd hyn at gau ei achos gyda'r tîm mynediad iechyd meddwl pan ddywedodd wrth staff ei fod yn ymdopi. Nododd ei fod yn difaru peidio dyfalbarhau a mynnu wrth staff ei fod angen cymorth pellach. Mae o'r farn bendant ei fod wedi dioddef o Anhwyllder Straen wedi Trawma (PTSD), ond nid oedd tystiolaeth ffurfiol o ddiagnosis o PTSD; hunan adroddiad P1 i'w Feddyg Teulu a'r merched roedd yn eu cyfarfod yn unig. Mae'n bwysig nodi pan ymwelodd P1 â'i Feddyg Teulu ym mis Mehefin 2013, problem gorfforol oedd ganddo ac nid problem iechyd meddwl.**

**5.3.2. Felly, o wybod y wybodaeth uchod, daeth y panel i'r casgliad bod posib ystyried rôl Meddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd eraill pan mae cleifion yn adrodd i'w Meddyg Teulu eu bod yn profi dicter ac yn crybwyll bod cyhuddiadau o drais wedi eu gwneud yn eu herbyn. Nododd y Panel bod y mater hwn wedi codi mewn Adolygiad Dynladdiad Domestig blaenorol i'r Swyddfa Gartref a bod canllawiau i Feddygon Teulu pan mae unigolyn yn adrodd eu bod yn cael eu cam-drin, ond mae'r canllawiau yn llai eglur pan mae unigolyn yn adrodd nodweddion a digwyddiadau sy'n nodi efallai y byddant yn risg i eraill. Felly, rydym yn argymhell bod rôl Meddygon a Gweithwyr Iechyd cenedlaethol wrth adrodd am Gam-drin Domestig posib yn cael ei ystyried yn nhermau datblygu canllawiau ar gyfer Meddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd a bod yn Meddygon Teulu yn cael hyfforddiant o ran hynny. Mae cynlluniau nawr ar waith yn lleol ar gyfer hyfforddiant (gweler argymhellion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Rydym hefyd wedi cydnabod efallai bod cyfyngiadau cyfreithiol a moesegol yn broblem i staff, ac felly rydym yn argymhell bod 'rhain yn cael eu hail ystyried yn nhermau rhoi canllawiau clir i Weithwyr**

lechyd Proffesiynol ar sut i ymdopi pan mae materion Cam-drin Domestig yn codi mewn trafodaeth gyda'u cleifion, neu'n cael eu hawgrymu gan yr unigolyn.

5.3.3. Fel y nodir uchod, mae'n bwysig egluro nad yw Adolygiad Dynladdiad Domestig yn ymchwiliad i sut mae'r dioddefwr yn marw, neu pwy sy'n gyfrifol, gan fod y materion hynny yn nwylo'r Crwneriaid a'r llysoedd troseddol. Yn yr achos hwn fodd bynnag, cyfaddefodd P1 ei fod wedi llofruddio Marie a chafodd ddedfryd o 17 mlynedd a hanner o leiaf dan glo.

### Gwersi a ddysgwyd ar gyfer gweddill yr Adolygiad Dynladdiad Domestig

6.1. Roedd gweddill yr Adolygiad Dynladdiad Domestig yn ymchwilio i berthnasau blaenorol P1, a oedd yn darparu mewnwelediad manwl i'w hanes; roedd hefyd yn darparu cyd-destun cefndirol i'w ymddygiad tuag at Marie, a arweiniodd at ei marwolaeth drist.

6.2. Yn ystod yr amserlen a osodwyd gan y panel yng nghylch gorchwyl yr Adolygiad Dynladdiad Domestig, (a oedd ddeng mlynedd cyn marwolaeth Marie ym mis Medi 2014); daeth y panel i wybod am 8 dynes, yn ychwanegol at Marie, a oedd wedi cael cyswllt gyda P1. Adroddir bod rhai perthnasau yn fyr iawn, ond yn rhai misoedd neu wythnosau o hyd. Roedd perthnasau eraill yn para 6 mis neu flwyddyn, ond nid oeddent yn byw gyda'i gilydd. Roedd P1 wedi priodi dwywaith cyn amserlen yr adolygiad, er bo un ysgariad yn cyd-fynd gyda'r flwyddyn ar ddechrau'r cyfnod 10 mlynedd.

6.3. Adroddodd bum dynes eu bod wedi cyfarfod P1 ar-lein gan ychwanegu at yr argymhelliad a wnaed gan y panel ynghylch defnyddio gwefannau canlyn ar-lein. Cysylltodd un ddynes â P1 er nad oedd wedi ei weld ers ei hieuenctid. Dywedodd y ddynes hon, V1, ei bod wedi dod â'r berthynas i ben yn gyflym, ar ôl cael ei cham-drin gan P1 o flaen rhywun arall. Mae'r merched i gyd yn crybwyll yn eu datganiadau i'r heddlu mai nhw, ac nid P1 daeth â'r perthnasau i ben.

6.4. Pan gynhaliodd awdur yr adroddiad gyfweiliad â P1, dywedodd ei fod wedi dioddef o PTSD (gweler uchod). Roedd rhai o ddatganiadau'r merched, a gysylltodd gyda'r heddlu ar ôl marwolaeth Marie, hefyd yn crybwyll bod P1 wedi dweud wrthynt ei fod wedi dioddef o PTSD. Siaradodd hefyd am gael ei gam-drin yn emosiynol gan ei dad pan roedd yn blentyn. Cawsom wybod ei fod yn rhoi gwahanol resymau am y PTSD honedig; yn ôl y merched, roedd y rhesymau'n amrywio o gamdriniaeth yn ystod ei blentyndod, colli ei wraig gyntaf a'i blant drwy ysgariad, trawma mewn gwasanaeth gyda'r Awyrlu Brenhinol a dioddef Camdriniaeth Domestig ei hun. Yn ôl y cofnodion meddygol a welsom, ni chafodd ddiagnosis ffurfiol o PTSD, felly mae'n ymddangos bod PTSD yn gyflwr yr oedd wedi ei roi ar ei hun.

6.5. Mae'r adroddiad hwn yn profi bod P1 yn fedrus iawn wrth baratoi a rheoli unigolion ac amgylcheddau. Byddai P1 yn cuddio ei ymddygiad o flaen eraill; nid ei ddiodeffwyr yn unig, ond ei gydweithwyr hefyd; roedd hyn yn rhan o'r broses paratoi. Roeddem wedi

darganfod tystiolaeth bod ymddygiad troseddol P1 yn ymestyn dros gyfnod o dros 23 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd yn ymosod ar, ac yn rheoli ei ddiodefwyr, gan achosi ofn a braw ar blant, ac yn achos un plentyn, anaf corfforol. Mae'r dystiolaeth yn profi fod gan P1 ffordd benodol o weithredu; roedd yn canolbwyntio ar ddenu, meddu ar a rheoli ei ddiodefwyr, a arweiniodd at honiadau difrifol o gam-drin 4 dynes o leiaf, a cholffarn am ymosodiad yn 2007 ac yn y pendraw, marwolaeth drasig Marie.

6.6. Fel y nodir uchod, mae'n bwysig egluro nad yw Adolygiad Dynladdiad Domestig yn ymchwiliad i sut bu farw'r diodefwyr, neu pwy sy'n gyfrifol, gan fod y materion hynny yn nwylo'r Crwneriaid a'r llysoedd troseddol. Felly, yn debyg iawn, mae'r Panel yn edrych ar berthnasau blaenorol P1 gyda'r bwriad o ymchwilio i'r posibilrwydd o ddysgu gwersi i asiantaethau, a ellir helpu diodefwyr o Gam-drin Domestig yn y dyfodol ac atal dynladdiadau a rhoi bai. Roedd yr Adolygiad Dynladdiad Domestig yn canolbwyntio ar 5 dynes, a roddodd ddatganiadau i'r heddlu am gwynion a achosodd i 7 cyhuddiad ar gyfer pedair ohonynt, ac mae'r cyhuddiadau hyn yn parhau i'w cadw ar ffeil. Galwyd y merched hyn i'r Panel, V1 i V5. Rhoddodd y merched eu caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth a rhoesant yn yr Adolygiad Dynladdiad Domestig.

6.7. Plediodd P1 yn ddieuog i'r 7 cyhuddiad ychwanegol a wnaed yn ei erbyn. Oherwydd ei fod wedi pledio'n euog i farwolaeth Marie, mae'r cyhuddiadau hyn yn cael eu cadw ar ffeil. Roedd yr adolygiad hwn yn archwilio'r wybodaeth a roddwyd, ac nad ellir rhoi sylw i gywirdeb y wybodaeth, gan fod yr achosion yn cael eu cadw ar ffeil. Felly defnyddir y wybodaeth gan gydnabod, beth bynnag fyddai canlyniad unrhyw wrandawriad yn y dyfodol, bod y merched a gymerodd rhan wedi adrodd eu profiadau a'u realiti eu hunain, ac mae'r panel yn ddiolchgar iawn am hynny.

6.8. O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Dynladdiad Domestig, roedd pedwar maes y canolbwyntiodd y panel arnynt, ac o ganlyniad yn ganolbwynt i'r adroddiad:

### 7. Y maes ychwanegol oedd yn ganolbwynt i'r adolygiad: Cynhadledd Amddiffyn Plant yn 2001.

7.1. Y maes cyntaf a archwiliodd y panel Adolygiad Dynladdiad Domestig oedd Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant yn Wrecsam yn 2001. Cynhaliwyd yr Achos Cynhadledd Amddiffyn Plant oherwydd ymweliad yr heddlu â digwyddiad treisgar. Cynhaliwyd y gynhadledd llawer cynt nag amserlen yr adolygiad, ond roedd y panel yn teimlo bod y digwyddiad hwn yn berthnasol i'r Adolygiad Dynladdiad Domestig, fel tystiolaeth o gyfnod ymddygiad P1 (a arweiniodd yn y pendraw at ddynladdiad Marie) ac yn benodol oherwydd cofnodwyd anafiadau i'r plentyn ar yr achlysur yr oedd Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant yn edrych arno. Cafodd P1 ei gyhuddo oherwydd yr anafiadau hynny, ond nid aeth yr achos yn ei flaen.

**7.2. Rydym yn cydnabod yn yr Adolygiad Dynladdiad Domestig bod newidiadau wedi bod i ymarfer, polisi a gweithdrefnau ers 2001. Mae deddfwriaeth newydd nawr mewn perthynas â Cham-Drin Domestig a Deddf Plant newydd yn 2004, ac yn fwy diweddar Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), 2015. Ym marn y panel, ac o safbwynt yr Adolygiad Dynladdiad Domestig, rhan bwysicaf y casgliadau o'r adran hwn yn yr Adolygiad Dynladdiad Domestig oedd bod yn rhaid i bob gweithiwr, o bob maes, weihredu 'chwilfrydedd proffesiynol' a chynnal asesiad risg gofalus o gallu'r dioddefwr Cam-drin Domestig i amddiffyn plant, yn enwedig pan mae'r gamdriniaeth yn ddifrifol a'r ffaith nad oedd tystiolaeth glir bod perthynas wedi dod i ben.**

**7.3. Daeth y panel i'r casgliad bod cysylltiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r teulu yn Wrecsam yn fyr iawn o wybod y sefyllfa a difrifoldeb yr ymosodiadau a adroddwyd. Efallai y gellir dadlau nad oedd digon o amser i brofi'r cynllun, a roddwyd ar waith gyda'r teulu. Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol yn ffyddiog am gydweithrediad y rhieni, ond roedd gweithrediadau paratoi a rheoli'r troseddwr yn dibynnu ar asesiad risg llawn, ac nid yw'r elfen hon o'r asesiad risg yn hollol amlwg. Wrth edrych yn ôl, daethom i wybod bod P1 yn dal i fod yn rhan o fywyd V3 yn ystod y cyfnod pan roedd yr achos ar agor yn Wrecsam. Rydym yn gwybod bod y plant, y plentyn dan sylw a'i frodyr a'i chwiorydd, a phlant P1 yn aros yng nghartref y teulu pan roedd P1 yn bresennol, yn groes i delerau'r cynllun diogelu, er nad oes gennym dystiolaeth bod hyn wedi digwydd cyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gau'r achos, neu tra bo'r cwpl yn byw yn Wrecsam. Rydym yn gwybod bod gan y plant hawl i aros ac roeddent yn cael eu gadael yng ngofal P1 tra roedd y Fam yn gweithio ac ar ôl i'r cwpl symud i Sir y Fflint a phriododd P1 a V3.**

**7.4. Felly, mae'r Panel yn dymuno pwysleisio y dylai ymarferwyr fod yn ofalus wrth ystyried pob plentyn sy'n dod i gyswllt rheolaidd ag unigolyn treisgar ac nid y rhai sy'n breswylwyr parhaol mewn cartref ag achosion o gam-drin domestig yn unig; efallai bod plant sydd â chyswllt aros rheolaidd yn bodoli hefyd. Mae'r Panel yn cytuno gyda chasgliadau Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam bod ymarfer wedi newid ers 2001, ac ein bod yn cytuno â phwysigrwydd defnyddio genogramau a systemau rhannu gwybodaeth manwl rhwng asiantaethau; ond mewn achosion amddiffyn plant dylid rhannu'r wybodaeth hon rhwng siroedd pan mae teuluoedd yn symud. Rydym yn gwybod nad oedd y plant dan sylw i gyd yn byw yn Wrecsam neu Sir y Fflint. Efallai bod gan Droseddwr Cam-drin Domestig blant o berthnasau blaenorol a dylid eu hystyried hwythau wrth gynnal asesiadau a dylid hysbysu eu rhieni/gofalwyr o unrhyw risg iddynt o ganlyniad i ymchwiliadau newydd.**

**7.5. Mae'r panel wedi arsylwi bod y dulliau gweithredu asesu risg nawr ar waith mewn achosion o Gam-drin Domestig ac mae'r rhain yn ddefnyddiol iawn, ond nid oes dirprwy ar gyfer' Ymarferwyr Cymwys Hyderus' sy'n ystyried yr holl wybodaeth ar gael ac sydd hefyd yn cadw llygad ar ymdrechion troseddwr i baratoi a rheoli amgylcheddau, gweithwyr, yn ogystal â'u dioddefwyr.**



## **8. Yr ail faes ychwanegol a ymchwiliodd y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig iddo**

### **Bygythiadau Geiriol yn erbyn V2**

Roedd y panel yn ystyried ail gyfnod, yn cynnwys V2 oedd yn wraig gyntaf i P1. Digwyddodd perthynas V2 a P1 yn ystod y cyfnod cyn amserlen yr adolygiad hefyd. Fodd bynnag, cynhaliwyd cyfweiliad rhwng V2 a Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn marwolaeth Marie, nododd bod bygythiadau geiriol difrifol wedi parhau i'w gwneud yn ei herbryn, sawl blwyddyn ar ôl ei ysgariad â P1, ac mae'r rhai o'r bygythiadau hynny yn disgyn o fewn cwmmpas yr Adolygiad Dynladdiad Domestig.

8.2. Bu V2 yn briod â P1 ac roedd y ddau yn byw yn llety'r Awyrlu Brenhinol ar ddechrau 1990au. Cynhaliodd yr awdur gyfweiliad â V2 at ddiben yr adolygiad hwn, ac fe esboniodd hi ei bod wedi dioddef lefel difrifol o drais, a ddechreuodd yn syth ar ôl iddi briodi P1 a tra'r oedd yn gwasanaethu fel trafodwr ci gyda'r Awyrlu Brenhinol. Ar ôl clywed stori V2, un o'n hamcanion yw sicrhau bod lefel y trais honedig a adroddodd V2 amdano a ddigwyddodd ar un o safleoedd yr Awyrlu Brenhinol, yn achosi gweithredu rhagweithiol a diogelwch i ddiodefwyr na'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

8.3. Daethom i wybod nad oes protocol/trefniant ar gyfer sut mae'r Lluoedd Arfog a Swyddogion Sifil yn ymateb i ac yn ymdopi â digwyddiadau o Gam-drin Domestig yn ymwneud â phersonél gwasanaeth neu eu teuluoedd; neu ddigwyddiadau o Gam-drin Domestig sy'n digwydd ar eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Felly, roedd y panel o'r farn ei fod yn briodol argymhell bod protocol yn cael ei ddatblygu i Ogledd Cymru rhwng safleoedd y Lluoedd arfog, sef yr Awyrlu Brenhinol a Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Cynigodd y panel argymhelliad i'r Swyddfa Gartref hefyd bod y fath protocolau yn ofyniad cenedlaethol fel y byddai hyn yn darparu ymateb cyson.

8.4. Cafwyd tystiolaeth emosiynol gan V2 i'r Adolygiad Dynladdiad Domestig ynglŷn â sut yr oedd hi wedi dioddef ac eto bod yr asiantaethau heb wrando arni yn y gorffennol, yn enwedig pan aeth i fyw dramor ar un o safleoedd yr Awyrlu Brenhinol. Cafwyd tystiolaeth ganddi hefyd bod angen dilyn i fyny ar faterion ymarfer ynghylch yr agweddau tuag at ddiodefwyr. Mae'r materion ymarfer hyn yn golygu'r angen i fod yn sensitif tuag at ddiodefwyr pan maent yn cysylltu â gwasanaethau ar unrhyw lefel, o'r derbynnnydd i'r person ar y ffôn, o'r swyddog heddlu i swyddog y llys. Er mwyn gallu gwneud hyn, mae'n rhaid i staff gofio am ddewrder y diodefwyr sy'n cysylltu â'r gwasanaethau, a'r ofn sydd ganddynt yn gwneud hynny. Heb anghofio'r ffaith y gallai'r trais a'r rheolaeth gynyddu os yw'r troseddwr yn dod i wybod am y cysylltiad.

8.5. Dywedodd V2 wrthym am alwad ffôn a wnaeth pan ddaeth yn ymwybodol, drwy ei phlant ei hun, o'r ffaith nad oedd plant V3 yn cael aros gyda V3 pan roedd P1 yn bresennol. Dywedodd V2 ei bod yn poeni am ddiogelwch ei phlant ac o ganlyniad fe gysylltodd â'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Pan ffoniodd V2, mae'r panel o'r

farn, nad oedd hi wedi cael digon o wybodaeth er mwyn diogelu ei phlant. Felly daeth y panel i'r casgliad y dylai rhieni a gofawyr gael digon o wybodaeth i'w helpu gyda diogelu eu plant pan maent yn gwneud ymholiadau oherwydd pryder bod unigolyn treisgar yn bresennol. O ganlyniad, mae'r panel wedi argymhell bod gweithwyr yn cael digon o gefnogaeth hyfforddiant a chanllawiau i'w galluogi i deimlo'n hyderus am y wybodaeth maent yn eu rhoi. Dylai'r canllaw a'r hyfforddiant gyfeirio gweithwyr at y dogfennau statudol sydd nawr ar gael ac yn trafod rhannu gwybodaeth megis y Rhaglen Datgelu Troseddwyr sy'n cam-drin plant yn rhywiol a'r Rhaglen Datgelu Cam-drin Domestig.

8.6. Rydym yn dymuno nodi ein bod wedi dysgu llawer o siarad â dioddefwyr am effaith hirdymor y trauma ar deuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig a'r anawsterau sy'n bodoli o hyd wrth chwilio am gymorth.

### **9. Trydydd maes ail ran yr Adolygiad Dynladdiad Domestig sy'n canolbwyntio ar gollfarn troseddol P1.**

9.1. Canfu'r adolygiad bod digwyddiad, a ddigwyddodd ar ddiwedd 2006 ac un y cafodd P1 ei ddyfarnu'n euog amdano a'i ddedfrydu yn 2007.

9.2. Cyfarfu P1 â V4 ar ôl i'w berthynas a'i ail wraig, V3, ddod i ben. Roedd P1 yn gweithio'n lleol yn Sir y Fflint ac fe symudodd i mewn gyda V4. Daethant i gysylltiad drwy ffrindiau yn gyffredin. Dywedodd V4 wrthym nad oedd hi wedi cael ei cham-drin yn eu cartref ond, yn debyg i ferched eraill ddaeth i gysylltiad â P1, mewn rali sgwteri. Dywedodd V4 bod y plant yn y tŷ pan roedd ymosodiadau yn digwydd gartref. Byddant i fyny'r grisiau ac yn cael eu gorfodi i aros yno petai unrhyw beth yn digwydd. Fodd bynnag, byddai'r ymosodiadau yn digwydd yn ystafelloedd y plant o dro i dro. Mewn gwirionedd, un o'r plant ffoniodd yr heddlu ar ôl yr ymosodiad, a ddigwyddodd yn oriau mân fore 19 Rhagfyr, 2006; roedd yr heddlu wedi cael eu galw eisoes gan V4 yn hwyr ar noson 18 Rhagfyr 2006, a daethant i'r tŷ bryd hynny.

9.3. Daethom i wybod bod methiannau yn 2006/2007 ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod:

- Er ein bod ni'n cydnabod annibyniaeth y llysoedd, rydym yn gobeithio y byddent yn cael budd o'r canfyddiadau yn yr Adolygiad Dynladdiad Domestig. Rydym wedi dod i wybod na ddilynodd y llys argymhelliad y gwasanaeth Prawf yn 2006, sy'n golygu collwyd cyfle i gyfeirio at ymddygiad y troseddwr drwy fandadu ei fod yn mynd ar gwrs y Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig.
- Roedd ymarfer cofnodi gwael yn amlwg mewn cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Arweiniodd diffyg cefnogaeth a chyfathrebu gyda'r dioddefwr gan asiantaethau, yn enwedig wyneb yn wyneb, at fethu cyfle i ddod i wybod am dorri amodau gorchymyn a wnaed gan y llys, oedd yn gwahardd cyswllt rhwng P1 a V3.
- Methiant gan y gweithiwr cymdeithasol i gynnal ymweliad cartref a argymhellwyd gan y panel Cam-drin Domestig a'i goruchwyliwr i asesu'r risg i'r plant.
- Diffyg dilyn i fyny ar unrhyw gefnogaeth i'r plant neu asesiad risg wyneb yn wyneb iddynt hwy a phlant genedigol P1, a oedd yn bresennol weithiau yng nghartref V3.
- Mae'n ymddangos yn 2006 bod rhywfaint o wybodaeth am yr ymosodiadau a ddigwyddodd yn y gorffennol yn Wrecsam yn bodoli. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd y wybodaeth hon wedi cael ei phasio mewn unrhyw ffordd a fyddai o gymorth mewn asesiad risg gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Cam-drin Domestig.

9.4. Nododd y panel bod, o fis Rhagfyr 2015, unioni yn y gyfraith nad oedd yn bodoli drwy'r cyfnod honedig pan oedd P1 yn cam-drin ac yn rheoli nifer o ferched. Roedd y panel hefyd yn nodi bod ymgyrch cenedlaethol yn cael ei hysbysebu, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, yn codi ymwybyddiaeth am 'Reolaeth drwy Orfodaeth', a ddylai fod yn elfen graidd i bob hyfforddiant ar draws y rhwydwaith amlddisgyblaethol yng Ngogledd Cymru a thu hwnt.

9.5. Mae Deddf newydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gofyn bod Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei fewnosod ar draws Cymru. Mae'r fframwaith hyfforddi aml lefel hwn yn sicrhau bod hyfforddiant cyson o ansawdd uchel ar gael dros yr holl wasanaethau cyhoeddus, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o Drais ar sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan newid agweddau a gwella natur ac ansawdd y gefnogaeth sydd yn cael ei ddarparu i ddiodeffwyr. Nid yw'r heddlu'n cael ei gynnwys yn y gofyniad hyfforddi hwn, felly rydym wedi argymhell bod angen i luoedd heddlu lleol sicrhau bod eu swyddogion yn yr Uned Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed yn cael mynediad ato, sy'n gymesur â'u dyletswyddau.

9.6. Mae'r panel yn nodi bod yr ymosodiad a ddigwyddodd yn 2006, fel y disgrifiodd V3, yn pwysleisio pwysigrwydd rôl y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Mae hyn hefyd yn profi pwysigrwydd asesiad risg i blant wyneb yn wyneb a chyfathrebiad gyda diodeffwyr; yn cynnwys natur y cyfathrebiad hwnnw, sydd angen bod yn ymwybodol o, ac yn sensitif i lefel yr ofn a'r trawma a ddiodeffwyd.

9.7. Yn olaf, roedd yn glir o'n cyfweiliad gyda V4 bod ymddygiad treisgar P1 yn hysbys gan nifer o bobl, a'r ffaith ni adroddwyd unrhyw ofidiau gan gymdogion na ffrindiau i unrhyw asiantaeth. Wrth ysgrifennu'r adolygiad hwn, mae'n ymddangos bod amharodrwydd adrodd pryderon ynghylch cam-drin domestig mor gryf ag erioed, er gwaethaf ymwybyddiaeth genedlaethol o Gam-drin Domestig a datblygiad parhaus yr ymateb iddo, ac er gwaethaf nifer y llinellau cymorth sydd ar gael i'r cyhoedd i adrodd digwyddiadau.

**9.8. O wybod maint y cyfnod hir dyfarnu P1 yn euog yn 2007, mae'r Panel yn nodi bod cyfres o welliannau eisioes wedi eu gwneud gan yr asiantaethau, ond mae argymhellion ychwanegol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint o ganlyniad i ganfyddiadau'r Adolygiad Dynladdiad Domestig a'r argymhellion a'r cynlluniau gweithredu sydd ynghlwm â'r Adolygiad Dynladdiad Domestig. Yn ychwanegol i argymhellion yr asiantaethau, cynigodd y panel argymhellion hefyd, sy'n dilyn y crynodeb hwn.**

### **9.9. Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

**9.9.1. Argymhellodd y GPC y dylai rheolwyr troseddwr sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau amlasiantaethol ar gyfnodau allweddol goruchwyllo ac adolygu. Felly, mae Rheolwyr Troseddwr Prawf yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cynnal gwiriadau gyda chydweithwyr asiantaethau perthnasol ar gyfnodau allweddol yn ystod yr adolygiad; ac o ganlyniad hynny byddai asesiad risg a rheolaeth well o achosion a hysbyswyd gan wybodaeth amlasiantaethol.**

**9.9.2. Bu argymhelliad arall gan y GPC y dylai rheolwyr troseddwr sicrhau cyswllt rheolaidd gydag achosion heb ofynion goruchwyllo. Felly, atgoffwyd Rheolwyr Troseddwr o bwysigrwydd sicrhau bod cyfweiliadau yn cael eu cynnal gydag achosion ar gyfnodau allweddol yr adolygiad cynllun dedfryd, i sicrhau bod asesiadau yn ddiweddar ac yn adlewyrchu amgylchiadau'r achos.**

### **9.10. Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint**

**Argymhellodd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint ei fod yn hanfodol bwysig ymgorffori effaith trais domestig ar blant a phobl ifanc ar ddogfen asesiad sengl a phroses asesu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu nodi a'r gefnogaeth briodol yn cael ei darparu.**

**9.10.2. Argymhellodd Sir y Fflint hefyd bod eu gweithdrefnau ar gyfer trais domestig yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys:**

- Prosesau atgyfeirio safonol i Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg pan mae 14 neu fwy o risgiau'n cael eu nodi yn yr 'Offeryn Bywydau Diogelach' neu pan mae pryderon proffesiynol sylweddol.**
- Gofynion ar gyfer gwiriadau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu am achosion o Gam-drin Domestig.**
- Ystyriaeth gweithredol o'r rhwydwaith o gyswllt mae gan troseddwr trais domestig gyda phlant a phobl ifanc a'r angen i hysbys/rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u diogelwch.**

9.10.3. Roedd y trydydd argymhelliad a wnaeth Sir y Fflint yn ymwneud â chofnodion canllaw achos sydd angen eu hadolygu a'u diweddarau i sicrhau bod safonau eglur ar gyfer cofnodi achosion priodol.

9.10.4. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar argymhellion Sir y Ffint, fel y'i gwelir yn y cynllun gweithredu.

#### **10. Y pedwerydd maes a archwiliodd y panel Adolygiad Dynladdiad Domestig**

10.1. Bu digwyddiad mewn Rali Beicwyr y Lleng Brydeinig Frenhinol (TRBL) yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2013, a bu angen i'r dioddefwr fynd i'r ysbyty o'r herwydd.

10.2. Ymosodwyd ar V5 ym mis Gorffennaf 2013, ac roedd ei disgrifiadau o'r digwyddiad yn gyson ag adroddiadau eraill o ymddygiad P1. Bu adroddiadau i'r heddlu ar ôl marwolaeth Marie gan ferched nad ydyn nhw'n adnabod ei gilydd nac ychwaith mewn cysylltiad â'i gilydd. Disgrifiodd V5 yr ymosodiad fel slap rymus un llaw i'w phen, "gyda'r effaith fwyaf a'r niwed gweledol lleiaf," disgrifiad sy'n cyd-fynd yn hollol gyda datganiad a wnaeth V4 i'r awdur yr adroddiad. Ar adeg yr ymosodiad, roedd P1 wedi bod yn yfed eto, ac mae'n wir bod alcohol wedi bod yn ffactor cyson pan roedd P1 yn ymosod ar ei bartneriaid, er bod awdur yr adroddiad wedi cael gwybod nad dyma'r achos o hyd. Pan gynhaliwyd cyfarfod at bwrpas yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn gydag aelod o'r panel ac awdur yr adroddiad; gwadodd P1 lefel yr ymosodiad hwn, a'r cyfrifoldeb amdano.

10.3. Roedd yr ymosodiad hwn yn gas, yn ofnus ac yn drawma i'r dioddefwr a'i merch. Methodd y sawl oedd mewn cysylltiad â hi pan ddigwyddodd yr ymosodiad i asesu lefel yr effaith a difrifoldeb y camdriniaeth. Cafodd y trawma effaith hirdymor ar V5 a'i merch.

#### **10.4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am yr ysbyty a ymwelodd V5 â hi yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac maent wedi cydnabod ni ddilynwyd y prosesau oedd ar waith yn yr ysbyty ar adeg ymweliad V5. Yn y cyfamser, darparwyd Hyfforddiant Cam-drin Domestig i staff ac mae safle ynglŷn â Cham-drin Domestig ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael ei sefydlu fel adnodd ac fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Bydd argymhellion symud ymlaen a wnaed gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn canolbwyntio ar y canllaw 'Gofyn a Gweithredu' ar draws y sefydliad. Bydd canlyniadau'n cael eu monitro drwy weithdrefnau'r Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Rhanbarthol statudol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n cynnwys uwch gynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

#### **10.5. Dyma'r argymhellion;**

10.5.1. Argymhelliad 1: Cynyddu'r dull adnabod i'r rheiny sy'n profi trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chynnig atgyfeiriadau amserol ac

ymyriadau i'r rheiny sy'n cael eu nodi mewn perygl. [Mae'r canllaw hwn hefyd yn cyfeirio at y cyswllt uniongyrchol rhwng cam-drin domestig a chamarfer plant]

Mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sicrhau bod yr ymchwiliad darged dan ganllawiau statudol 'Gofyn a Gweithredu' yn cael ei weithredu ar draws y sefydliad.

**10.5.2. Argymhelliad 2: Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan [2008] i atgoffa staff rheng flaen i ystyried y risgiau i blant a'r angen i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant, pan mae rhiant neu berthynas agos yn profi trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

## **10.6. Y Lleng Brydeinig Frenhinol**

**10.6.1. Fe wnaeth trefnwyr y rali, a oedd yn wirfoddolwyr, ymdrin â'r sefyllfa yn dilyn yr ymosodiad i ryw raddau; fe gludon nhw V5 i'r ysbyty a drannoeth i'r orsaf drenau, ac fe wahanon nhw P1 a V5. Fodd bynnag, daeth y panel i gasgliad bod methiant i werthfawrogi difrifoldeb y fath drais, ac o beth rydym ar ddeall o'r Adolygiad Dynladdiad Domestig, roedd ymddygiad P1 yn hysbys i aelodau'r Grŵp Beicwyr TRBL cyn mis Gorffennaf 2013.**

**10.6.2. Mae TRBL yn sefydliad uchel ei barch, yn enwedig ym Mhrydain, a daeth y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig i'r casgliad bod y TRBL angen sicrhau bod gan eu sefydliad, ar bob lefel, polisi dim goddefgarwch o Gam-drin Domestig ac yn dilyn gweithdrefnau'r sefydliad.**

**10.6.3. Mae'r Panel wedi argymhell bod y TRBL yn datblygu polisi a gweithdrefnau penodol er mwyn rheoli'r fath ddigwyddiadau a bod datganiad cenhadaeth Polisiâu Diogelu'r TRBL yn cynnwys datganiad o bolisi dim goddefgarwch o Gam-drin Domestig.**

**10.6.4. Mae angen i'r TRBL sicrhau nad yw'r sefydliad yn ymddangos fel eu bod yn goddef y fath ymddygiad treisgar gan ganiatáu i unrhyw un aros mewn unrhyw fath o rôl sy'n rhoi awdurdod iddynt unwaith mae aelod wedi troseddu yn y fath ffordd.**

**10.6.5. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi ysgrifennu at y panel yn nodi eu bod yn derbyn yr argymhellion hyn.**

**10.6.6. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn argymhell bod y CGGC a'r CCMG yn darparu canllawiau i bob Corff a Mudiad Gwirfoddol, sy'n sicrhau safonau cadarn i Weithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion o fewn Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol ac yn cynnig gweithdrefnau er mwyn adrodd Cam-drin Domestig. Dylai'r canllaw hwn wneud datganiad ynghylch polisi dim goddefgarwch o Gam-drin Domestig. Dylid darparu canllaw i gyrff a mudiadau gwirfoddol hefyd ynghylch cyfranogi mewn Adolygiadau Dynladdiadau Domestig ac adolygiadau o achosion difrifol eraill.**

## **11. Dysgu gan Ddiodefwyr am ymddygiad y Troseddwr**

**11.1. O wybod ymroddiad aelodau'r cyhoedd wrth lunio'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn, roeddem yn teimlo y dylai'r Crynodeb Gweithredol gynnwys crynodeb o'r dysgu a wnaed o gyfweiliadau gyda merched a'r datganiadau oedd ar gael i'r Adolygiad Dynladdiad Domestig.**

### **11.2. Cuddio Troseddau**

Fel Panel, cawsom wybod bod P1 yn dweud wrth ferched, a chydweithwyr yn rheolaidd am ei ymddygiad troseddol yn y gorffennol, a oedd yn gwneud iddynt ymddangos yn llai. Roedd hyn yn golygu bod pobl yn credu ei fod yn agored ac yn onest gyda nhw. Roedd tueddiad P1 i gyfaddef pethau yn arwain at y bobl o'i gwmpas i gredu bod esboniad am ei ymddygiad, a'i fod yn newid, neu y byddai'n newid. Daethom i wybod yn ystod yr Adolygiad Dynladdiad Domestig bod tueddiad i bobl "Gymryd unigolion fel maent yn dod o hyd iddynt". Yn achos y rheiny sy'n cam-drin eu partneriaid yn ddifrifol, mae hyn yn feddylfryd peryglus i bartneriaid posib ei ystyried. Mae'r panel yn crynhoi bod rhaid rhoi mwy o bwyslais ar lenyddiaeth a hysbysebu Cam-drin Domestig ar sut mae dioddefwyr yn cael eu paratoi a'u rheoli, oherwydd tueddiad P1 i guddio ei ymddygiad treisgar o flaen eraill; roedd hyn yn thema gyffredin drwy gydol yr adolygiad hwn, ei dechnegau paratoi yn enwedig.

### **11.3. Defnydd Alcohol, Camdriniaeth ac Ymddygiad Treisgar**

Does dim syndod ein bod wedi canfod bod P1 yn aml yn yfed cyn bod yn gorfforol dreisgar. Roedd P1 yn ymwybodol ei hun yn ystod y cyfweiliad, bod risg i'w ymddygiad barhau os oedd mewn sefyllfa o 'yfed'. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi ei fod wedi cael ei ddisgrifio fel dyn meddiannol oedd yn hoffi rheoli, i'r fath raddau â rheolaeth drwy orfodaeth, hyd yn oed pan nad oedd yn yfed. Roedd sawl merch yn defnyddio'r term 'ar bigau drain' oherwydd nad oedd posib gwybod beth fyddai'n ysgogi P1 i golli ei dymer.

### **11.4. Lleihau Effaith Troseddau**

Fel y nodir uchod, nid oedd P1 am guddio ei orffennol, roedd yn siarad yn agored amdano. Roedd merched yn teimlo fel eu bod yn gwybod am ei orffennol cyn i unrhyw un arall gael cyfle i ddweud wrthynt; roedden nhw'n teimlo ei fod yn onest, agored ac wedi newid. Roedd P1 yn aml yn gwneud sylwadau penodol, cuddiedig a bychanol am ei ddioddefwyr wrth gael ei gyfweild am yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn. Nid aeth mor bell a dweud mai eu bai nhw oedd yr ymosodiadau, ond roedd yn crybwyll yn aml am eu nodweddion, bron i awgrymu nad oeddent i gyd yn ddioddefwyr dieuog. Drwy wneud hyn roedd yn lleihau effaith ei gyfrifoldeb dros ei ymddygiad. Er hynny, roedd yn cyfaddef ei fod yn ddyn mawr a byddai gan unrhyw ddioddefwr ofn ohono. Ni wnaeth unrhyw ymdrech i leihau ei gyfrifoldeb dros lofruddio Marie.

### **11.5. Ymosodiadau ar rannau o'r corff lle byddai anaf yn llai amlwg**

Roedd patrwm yr ymosodiadau a ddisgrifiwyd i ni yn eithaf cyson, gyda'r pen yn darged fel arfer. Roedd hyn yn golygu bod anafiadau yn aml yn cael eu cuddio gan y gwallt. Dywedodd sawl merch wrthym eu bod wedi cael eu taro *“fel petai wedi gwneud hyn o'r blaen”*. Roedd anafiadau eraill i rannau o'r corff a fyddai'n cael eu cuddio gan ddillad, felly rydym yn dod i'r casgliad y dylai ymarferwyr fod yn wylidwrus iawn nad ydynt yn gwneud penderfyniadau yn syth pan nad oes anaf gweledol, pan maent yn mynychu sefyllfaoedd o Gam-drin Domestig neu'n ymdrin â dioddefwyr camdriniaeth.

#### 11.6. Galwadau ffôn yn hwyr yn y nos

Nid ydym yn gwybod a oedd P1 yn ymwybodol bod ymwrthedd pobl yn llai yn hwyr yn y nos, neu fod ganddynt fwy o ofn ai peidio. Rydym yn gwybod ei fod yn cysylltu â'r merched yn aml yn hwyr yn y nos, ac eu bod yn llai tebygol o allu ymdopi gyda'i fygythiadau neu wrthod ei ofynion. Mae hyn yn rhan o'r broses paratoi a rheoli. Mae'n hysbys bod pobl yn edrych ar eu ffonau bob awr o'r nos ac yn cymryd dyfeisiadau tabled a'u ffonau i'r gwely. Un ffordd o leihau bygythiad ymddygiad treisgar a rheolaeth yw lleihau'r posibilrwydd o gyswllt yn hwyr yn y nos drwy weithredu cyrffiw ar gyfryngau cymdeithasol a ffonau, ac o ganlyniad, ateb y ffôn ar ôl cael cwsg a phan mae pobl eraill ac asiantaethau yn haws eu cysylltu.

#### 11.7. Mynediad at linellau cymorth

Tra rydym yn trafod ffonau, rydym wedi canfod bod pobl yn dibynnu ar gefnogaeth sy'n cael ei gynnig dros y ffôn yn amlach. Mae'n bwysig nodi felly nad yw rhai dioddefwyr yn teimlo bod defnyddio'r fath gymorth yn bosib oherwydd presenoldeb rheolaeth drwy orfodaeth drwy gydol eu bywydau, a hefyd mae'n debyg bod cysylltiad wyneb yn wyneb yn fwy ffafriol, drwy ganolfan galw heibio er enghraifft. Felly mae gwir angen am fathau eraill o gefnogaeth.

#### 11.8. Gofyn am gymorth

11.8.1. Mae'r rhan fwyaf o beth y cawsom wybod gan ddiodefwyr ynglŷn â pha mor anodd yw chwilio am, a defnyddio cymorth (yn cynnwys cymorth meddygol am anafiadau) , adrodd am ymddygiad troseddol a gwella o effeithiau rheolaeth drwy orfodaeth, cael eu paratoi, eu rheoli a'u cam-drin. Clywsom am ba mor anodd yw sylwi beth sy'n digwydd i chi fel dioddefwr, yn enwedig os ydych chi'n ddynes gref ac annibynnol, sy'n cynnal teulu ac mewn gwaith. Roedd y merched y siaradon ni â nhw yn teimlo 'bod hyn ddim yn digwydd i bobl fel fi'.

11.8.2. Dywedodd mamau'r plant wrthym eu bod wedi dioddef trawma o brofi Cam-drin Domestig, a pha mor aml roeddent yn gorfod dioddef gweld neu glywed camdriniaeth, ac



mewn un achos, cael eu cam-drin yn gorfforol eu hunain. Daethom i wybod sut roedd y plant yn ceisio symud ymlaen drwy beidio siarad am beth ddigwyddodd.

### **11.9. Cymdogion, ffrindiau, teulu a'r cyhoedd yn adrodd**

Mae annog dioddefwyr, ffrindiau, cymdogion a theulu i adrodd, pan maent yn gwybod bod cam-drin yn digwydd yn hanfodol bwysig. Mae angen cefnogaeth a diogelwch ar bobl pan maent yn dod ymlaen i adrodd. Roedd yn glir, er gwaethaf y datblygiadau sydd wedi cael eu gwneud mewn rheoli achosion o Gam-drin Domestig, bod gennym lawer o waith i'w wneud, fel bod dioddefwyr yn teimlo'n ddigon diogel, nid yn unig i adrodd camdriniaeth ond i barhau gydag erlyniad. Mae'r un peth yn wir am y 'cyfnod ar ôl adrodd', o ran bod dioddefwyr yn teimlo fel eu bod yn gallu cael mynediad i gymorth addas ar gyfer eu hanafiadau corfforol ac emosiynol.

### **11.10. Ansawdd Ymarfer**

Mewn sawl ffordd, mae ein canfyddiadau ar gydbwysedd yn ymwneud ag ansawdd ymarfer yn hytrach gweithdrefnau. Clywsom gan y Dioddefwyr am bwysigrwydd bob cam eu triniaeth a bod empathi a derbyngarwch yn cae ei ddangos, o'r cam cyntaf un. Mae hyn yn cyfeirio at y pwynt pan mae'r dioddefwr yn cysylltu â staff derbynfa, hyd at y cyswllt hynny gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweld pobl yn yr Uned Damweiniau Brys neu syrjeri'r Meddyg Teulu, ac yn ymestyn at y cyswllt gyda gwirfoddolwyr. Mae ymgysylltiad personol a gwranddo heb os yn gwneud gwahaniaeth i ba mor abl mae dioddefwyr yn parhau i ddatgelu. Mae cefnogaeth ar ôl datgeliad yn bwysig hefyd oherwydd bod tystiolaeth yn profi bod trawma yn anodd iawn dod yn ôl ohono. Felly, mae'r Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig yn gyfres o argymhellion am hyfforddiant staff, gyda phwyslais ar ddull empathig o wrando ac ymdrin â Dioddefwyr.

## **13. Argymhellion a phennu cyfrifoldeb**

### **ARGYMHELLION**

**Argymhelliad 1: Ffonau Symudol a Galwadau am Help: Argymhelliad ar gyfer Cyngorwyr Cam-drin Domestig Rhanbarthol ac Argymhelliad Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, i'w monitro a'u datblygu yn lleol gan y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel**

11.23: Pan mae unigolyn wedi deialu 999 o'u ffôn symudol, heblaw eu bod yn darparu manylion natur y sefyllfa brys a rhoi manylion o'u lleoliad i'r Trafodwr Galwadau Ffôn BT, nid oes sicrwydd o dderbyn cymorth. Mae hyn yn arbennig o wir am unigolion sy'n defnyddio ffonau symudol 'Talu wrth Fynd'. Mae defnyddwyr ffonau symudol yn llai tebygol i gael eu lleoli na'r rheiny sy'n defnyddio ffôn llinell dir.

Felly:

a) Dylai bob cyngor ar lafar a thafleuni'n adlewyrchu'r uchod yn genedlaethol ac yn lleol.

b) Mae angen i'r cyngor a'r cyfarwyddyd sy'n cael ei roi ar sut i ofyn am gymorth mewn sefyllfa brys a'r peryglon o ddibynnu ar alwadau mud ffurfio rhan o unrhyw hyfforddiant neu gyhoeddusrwydd.

Mae'r dull Datrysiadau Distaw angen cyhoeddusrwydd rheolaidd ac sy'n ymestyn yn eang, o ddarn ar daflenni gwybodaeth gweithdrefnau a hyfforddiant i bob asiantaeth sy'n rhoi cyngor, neu cynorthwyo dioddefwyr gyda cham-drin domestig yn lleol ac yn genedlaethol.

### **Argymhelliad 2: Y Peryglon sy'n gysylltiedig â Chanlyn Ar-Lein: Argymhelliad Cenedlaethol**

Rydym yn argymhell bod hysbyseb wybodaeth genedlaethol am y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio gwefannau canlyn a datgeliad personol ar-lein. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ar sut i gwrdd yn ddiogel, ar adnabod yr arwyddion cyntaf o reolaeth drwy orfodaeth a beth i wneud am hynny.

### **Argymhelliad 3: Cyngor ar Ddiogelu wrth ddefnyddio Gwefannau Canlyn Ar-lein: Argymhelliad Lleol ar draws Gogledd Cymru: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.**

Rydym yn argymhell y dylid cynnwys cyngor ar ddiogelu wrth ddefnyddio gwefannau canlyn ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol eraill yn y meysydd hynny mae gennym fynediad atynt yn barod a gwneud newidiadau iddynt o ganlyniad. Mae hyn yn cynnwys, gwefannau diogelu'r cyngor, gwefannau a thafleuni sy'n rhoi cyngor ar gam-drin domestig a thudalennau cymorth yr heddlu.

### **Argymhelliad 4: Hyfforddiant i Feddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd mewn perthynas â datgeliadau cleifion sy'n awgrymu Cam-drin Domestig: Argymhellion Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chenedlaethol.**

Rydym yn argymhell bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Meddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd ynglŷn â sut i adnabod a thrin materion Cam-drin Domestig a allai godi mewn trafodaeth gyda'u cleifion, yn cynnwys sut i ymdrin â datgeliadau gan gleifion am awgrymiad camdriniaeth tuag at bartner neu aelodau o'r teulu.

### **Argymhelliad 5: Argymhelliad cenedlaethol yn ymwneud â 'Chanllaw Trothwy' a hyfforddiant i Feddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd mewn perthynas â datgeliadau cleifion sy'n awgrymu Cam-drin Domestig. Y Swyddfa Gartref gyda Choleg Brenhinol y Meddygon a'r Coleg Nyrsio Brenhinol**

Rydym wedi argymhell i'r Swyddfa Gartref y dylid cynnal trafodaethau gyda Coleg Brenhinol y Meddygon a'r Coleg Nyrsio Brenhinol i sicrhau bod terfynau cyfreithiol a moesegol ar gyfrinachedd cleifion yn cael eu hail ystyried yn nhermau rhoi canllawiau clir i Weithwyr Iechyd Proffesiynol ar sut i adnabod a rheoli pan mae materion Cam-drin Domestig yn codi mewn trafodaeth gyda'u cleifion neu'n cael eu hawgrymu gan edrychiad y claf. Dylai hyn gynnwys sut i ymdrin â datgeliad gan gleifion am faterion rheoli dicter, a fyddai'n awgrymu

i'r Meddyg Teulu neu Weithiwr Iechyd Proffesiynol arall bod y claf yn risg i eraill, yn cynnwys partner neu blant.

**Argymhelliad 6: Protocol rhwng Gwasanaethau'r Fyddin a Heddlu Sifil: Heddlu Gogledd Cymru ac RAF y Fali.**

Rydym yn argymhell bod protocol ar gyfer rheoli digwyddiadau o Gam-drin Domestig yn cael ei ddatblygu rhwng Heddlu Gogledd Cymru ac RAF y Fali.

**Argymhelliad 7: Protocol rhwng Gwasanaethau'r Fyddin a Heddlu Sifil: Argymhelliad Cenedlaethol i'r Swyddfa Gartref.**

Rydym yn argymhell bod ystyriaeth genedlaethol yn cael ei roi i brotocolau sy'n cael eu datblygu rhwng lluoedd yr heddlu sifil a gwasanaethau heddlu'r fyddin ar draws Prydain lle nad ydynt yn bodoli'n barod.

**Argymhelliad 8: Pwysigrwydd bod pob aelod o staff sy'n dod i gyswllt gyda dioddefwr yn defnyddio dull empathig o wrando: Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.**

Mae'r Panel yn argymhell bod goruchwyliaeth a hyfforddiant staff ar draws y rhwydwaith amlasiantaethol, yn cynnwys hyfforddi staff y dderbynfa a staff ategol yn pwysleisio pwysigrwydd gwrando a defnyddio dull empathig o wrando. Byddai'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod staff yn ystyried dewrder gofyn am gymorth neu adrodd am gamdriniaeth.

**Argymhelliad: 9 Ymwybyddiaeth o berygl cynyddol i ddioddefwyr pan maent yn adrodd am gamdriniaeth: Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion a Phlant, a Chonsortium Hyfforddi Rhanbarthol Bwrdd Strategol VAWDASV.**

Rydym yn argymhell bod staff yn cael eu hyfforddi i adnabod pan mae unigolyn yn adrodd cam-drin domestig neu'n cynllunio gadael camdriniwr, bod y dioddefwyr hwnnw'n debygol o fod mewn mwy o berygl os yw'r troseddwr yn dod i wybod am eu gweithgareddau neu eu bwriad.

**Argymhelliad 10: Canllaw Gweithdrefnol ar Ddatgelu digon o wybodaeth i rieni fel eu bod yn gallu diogelu eu plant eu hunain: Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion/Plant Gogledd Cymru.**

Rydym yn argymhell bod pob asiantaeth sy'n ymwneud â diogelu yn gwirio bod eu gweithdrefnau yn rhoi canllawiau digonol i staff i sicrhau bod gweithwyr yn datgelu gwybodaeth i rieni a rhai sy'n rhoi gofal i blant ac oedolion diamddiffyn fel bod rhieni a gofaluwr yn gallu amddiffyn y rheiny maent yn gofalu amdanynt. Dylai'r canllaw hwn gynnwys cyfeiriad at raglenni sydd eisoes ar waith megis y Rhaglen Datgelu Trais Domestig (Cyfraith Claire) a'r Rhaglen Datgelu Troseddwr Rhyw â Phlant; cafodd y rhain eu cyflwyno er mwyn codi hyder y cyhoedd a chynyddu diogelwch plant. Mae'r rhaglen datgelu yn cynnwys llwybrau at hawl i wybodaeth wedi'i reoli, nid yn unig mewn perthynas ag unigolion sydd wedi cael eu cyhuddo o fod yn droseddwr rhyw â phlant, ond hefyd sy'n

berygl o roi niwed i blant. Byddai'r fath unigolion yn cynnwys y rheiny sydd wedi cael eu cyhuddo o drais domestig difrifol.

**Argymhelliad 11: Hyfforddi a Goruchwyllo yn ymwneud â datgelu gwybodaeth i rieni: Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru.**

Rydym yn argymhell bod hyfforddi a goruchwyllo staff sy'n gyfrifol am ddiogelu yn cynnwys nodyn i atgoffa rhieni a gofawyr am eu dyletswydd i roi gwybodaeth ddigonol fel bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu.

**Argymhelliad 12: Dilyn i fyny ar weithrediadau Goruchwyllo a argymhellwyd gan Uwch Weithwyr Proffesiynol: Cyngor Sir y Fflint.**

Yn ystod goruchwyllo gweithwyr cymdeithasol y gwaith maes dylai Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod goruchwylwyr yn cofnodi'r cyfarwyddiadau a roddir i'r gweithiwr yn ofalus. Yna, mae'n rhaid sicrhau bod y Goruchwylwyr yn gwirio bod y cyfarwyddiadau hynny wedi eu gweithredu. Dylai'r Goruchwylwyr nodi bod y tasgau hyn wedi cael eu cwblhau ac os nad ydynt, sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n unswydd.

**Argymhelliad 13: Cofnodi Penderfyniadau, a'r rhesymau dros y penderfyniadau yn glir mewn Fforymau Gwneud Penderfyniadau: Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru.**

Rydym yn argymhell bod asiantaethau yn adolygu eu polisiau cofnodi i sicrhau bod penderfyniadau ac argymhellion paneli, cynadleddau achos a fforymau gwneud penderfyniadau eraill yn cael eu cofnodi'n glir, a bod y rhesymau dros y penderfyniadau hynny'n eglur yn nodiadau'r cyfarfod.

**Argymhelliad 14: Argymhellion Cenedlaethol i'r Swyddfa Gartref ynghylch rôl y Llysoedd:**

Er ein bod yn cydnabod annibyniaeth y llysoedd, a bod canllawiau ar ddedfrydu eisoes yn bodoli, rydym yn gwneud argymhelliad cenedlaethol bod y llysoedd yn ystyried y cyfleoedd y gellir eu methu i oruchwyllo ymddygiad troseddwr yn ofalus, os nad ydynt y dilyn argymhellion y Gwasanaeth Prawf mewn achosion lle nodwyd y byddai'n briodol ac yn fuddiol i'r troseddwr fynd ar raglen triniaeth. Os yw'r llys yn penderfynu peidio dilyn y fath argymhelliad, dylai'r rheswm dros hynny gael ei gofnodi.

**Argymhelliad 15: Cadw Cofnodion y Llys: Swyddfa Gartref**

Rydym yn argymhell yn genedlaethol bod cofnodion y llysoedd yn cael eu cadw am gyfnod digon hir fel bod unrhyw adolygiad, megis adolygiad achos difrifol neu Adolygiad Dynladdiad Domestig yn gallu elwa o gael mynediad at y cofnodion hynny. Byddai cyfnod o 10 mlynedd yn rhesymol.

## **Argymhelliad 16: Argymhelliad gan y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig i Gonsortia Hyfforddi Cenedlaethol Cymru**

*(Mae'r Panel yn nodi ei fod eisoes yn argymhelliad bod pob aelod o staff rheng flaen a rheolwyr yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant ar y safonau sy'n ofynnol yn genedlaethol ar gyfer gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Caiff Consortiwm Hyfforddi Rhanbarthol ei sefydlu yng Ngogledd Cymru gyda'r bwriad o gyflwyno darpariaeth Fframwaith Hyfforddi Llywodraeth Cymru a bydd yn rhedeg am 5 mlynedd. Mae'r Panel yn argymhell bod canfyddiadau'r Adolygiad Dynladdiad Domestig yn cael eu hadrodd i'r trefnwyr a'r hyfforddwyr er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn pwysleisio bod angen i'r asesiadau fod yn gadarn ac yn ddynamig heb ddibynnu'n ormodol ar offer unigol.*

## **Argymhelliad 17: Defnydd Offer mewn gwaith Cam-drin Domestig a Phwysigrwydd Asesiad: Consortiwm Hyfforddi Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

17. a. Rydym yn argymhell bod hyfforddiant a goruchwyllo'n canolbwyntio ar asesiadau ansawdd sy'n pwysleisio defnyddio chwilfrydedd proffesiynol a barn ac osgoi dibynnu'n ormodol ar offer.

17.b. Dylai gweithwyr proffesiynol dderbyn hyfforddiant sy'n cydnabod bod offer yn fframweithiau ar gyfer casglu gwybodaeth a'u bod yn cynorthwyo gydag asesiadau ond nid ydynt yn asesiad risg llawn. Dylai asesiad risg fod yn broses ddynamig sy'n cynnwys casglu a gwerthuso pob darn o wybodaeth berthnasol, yn cynnwys barn dioddefwyr a theuluoedd. Mae 'Bywydau Diogel' yn rhan o'r asesiad hwnnw; dylid mesur canlyniad defnyddio 'Bywydau Diogel' ynghyd â phob darn arall o wybodaeth sydd ar gael.

17. c. Wrth wneud asesiad achos o gam-drin domestig, ni ddylai'r ffocws ar y dioddefwr amharu ar gasglu digon o wybodaeth am y troseddwr i ddiogelu'r rheiny sy'n debygol o, neu wedi dod i gyswllt ag o. Felly dylai asiantaethau nodi nad yw 'Bywydau Diogel', sydd wedi cael ei ddisodli gan offeryn 'Cyd-Weithredu yn erbyn Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu' (CAADA DASH), yn cwmpasu'r maes asesiad hwn ar hyn o bryd. Felly, mae'n rhaid i aseswyr gasglu digon o wybodaeth am gylchoedd troseddwr i sicrhau bod diogelwch unigolion bregus eraill sy'n dod i gyswllt yn cael eu hystyried.

## **Argymhelliad 18: Argymhelliad mewn perthynas â: Hyfforddiant ar gyfer Consortiwm Hyfforddi Rhanbarthol Gogledd Cymru**

18. a. Mae'r Panel yn argymhell bod rhaglenni hyfforddi yn sicrhau bod ymarferwyr a'u rheolwyr yn ofalus wrth ystyried pob plentyn a pherson ifanc a fyddai'n dod i gyswllt rheolaidd ag unigolyn treisgar ac nid y rhai sy'n breswylwyr parhaol yn unig.

18. b. Dylai hyfforddiant staff y rheng flaen, sy'n mynd i gyfarfodydd amlasiantaethol mewn perthynas â diogelwch y dioddefwr ar draws pob ystod oedran, gynnwys adran sy'n trafod y broses paratoi a rheoli gweithwyr a'r rhwydwaith amlasiantaethol. Mae hyn oherwydd cydnabyddiaeth bod camdrinwyr yn rheoli amgylcheddau, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a'u dioddefwyr fel ei gilydd.

18. c. Dylai hyfforddiant ar asesiad risg ym maes cam-drin domestig gynnwys cyfeiriadaeth at y ffenomena o guddio troseddau, oherwydd bod hyn yn debyg i Gydymffurfedd Cuddiedig mewn gwaith amddiffyn plant a gellir camarwain a rhoi hyder ffug i ymarferwyr.

18. d. Mae angen i hyfforddiant helpu ymarferwyr i archwilio cymhlethdod gweithio ym maes perthnasau personol a chodi ymwybyddiaeth o wrthdaro mewn ffyddlondeb sy'n bodoli pan mae dioddefwr yn adrodd am gamdriniaeth neu'n ystyried dod â pherthnasau i ben.

### **Argymhelliad 19: Cynnwys personél perthnasol Heddlu Gogledd Cymru mewn hyfforddiant rhanbarthol o ran gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Heddlu Gogledd Cymru**

Mae'r Panel yn nodi nad yw'r heddlu'n cael eu cynnwys yng ngofyniad hyfforddiant mewn perthynas â gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac felly rydym yn argymhell bod Swyddogion Cam-Drin Domestig a swyddogion yr Uned Amddiffyn Unigolion agored i Niwed yng Nghymru yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n gymesur â'u rôl.

### **Argymhelliad 20: TRBL ddim yn goddef Cam-drin Domestig.**

Rydym yn argymhell bod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn llunio datganiad cenhadaeth yn ei bolisiau diogelu sy'n egluro nad yw TRBL yn goddef Cam-drin Domestig.

### **Argymhelliad 21: Rheoli Trais yn erbyn Partneriaid ar safleoedd digwyddiadau a drefnir gan, neu ar ran y TRBL.**

Rydym yn argymhell bod y TRBL yn datblygu polisi penodol ar reoli digwyddiadau o Gam-drin Domestig yn erbyn Partneriaid sy'n digwydd, un ai, ar eu safle neu mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan, neu'n benodol ar ran TRBL.

### **Argymhelliad 22: Cynnal swyddi yn y TRBL pan mae'n hysbys bod aelod wedi Cam-drin gan Bartner: Y Lleng Brydeinig Frenhinol**

Rydym yn argymhell bod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn sicrhau bod swyddogion a threfnwyr yn ystyried yn ofalus rhoi unrhyw un mewn swydd o fewn ei sefydliad, er gwaethaf lefel y swydd, ar ôl iddynt Gam-drin mewn digwyddiad TRBL. Rydym yn dweud hyn oherwydd byddai gwneud hynny, nid yn unig yn rhoi'r neges bod goddefiad yn bodoli o fewn y sefydliad, ond gall hefyd fod o gymorth ychwanegol i'r troseddwr wrth reoli eraill drwy orfodaeth.

### **Argymhelliad 23: Argymhelliad i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol mewn perthynas â'r angen am ganllawiau clir sy'n sicrhau safonau digonol ar gyfer gweithdrefnau amddiffyn mewn Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol.**

Rydym yn argymhell bod y CGGC a'r CCMG yn darparu canllawiau i bob Corff a Mudiad Gwirfoddol, sy'n sicrhau safonau cadarn ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion o fewn Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol ac yn cynnig gweithdrefnau er mwyn adrodd ac ymdrin â Cham-drin Domestig. Dylai'r canllaw hwn gynnwys safbwynt o beidio goddef Cam-drin Domestig. Dylai canllaw o'r fath gyfeirio at adolygiadau o achosion difrifol amrywiol hefyd, a fyddai'n digwydd ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Amddiffyn Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiadau Domestig a phwysigrwydd cyfranogiad llawn pan wneir cais am yr adolygiadau hyn.

**Argymhelliad 24: Cyngor i ddioddefwyr ynglŷn â diffodd ffonau symudol a theclynnau ar ôl iddi nosi: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

Rydym yn argymhell bod cyngor i ddioddefwyr, yn uniongyrchol neu drwy daflenni gwybodaeth, ar-lein ac ati, yn cynnwys pwysigrwydd diffodd ffonau symudol a theclynnau i osgoi cyswllt pan maent yn agored i niwed drwy flinder neu'n cael eu deffro ganol nos.

**Argymhelliad 25: Pwysigrwydd gwrando: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a NWRSB.**

Rydym yn argymhell bod goruchwyliaeth a hyfforddiant ar draws y rhwydwaith amlasiantaethol, yn cynnwys hyfforddiant i staff ategol a staff y dderbynfa, yn pwysleisio pwysigrwydd gwrando ac anelir bod staff yn ystyried dewrder y dioddefwyr wrth ofyn am gymorth ac adrodd am gamdriniaeth.

**Argymhelliad 26: Nodi bod risg gynyddol o berygl i ddioddefwyr wrth adrodd am gamdriniaeth: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

Rydym yn argymhell bod staff yn cael eu hyfforddi i adnabod pan mae unigolyn yn adrodd am gam-drin domestig neu'n cynllunio gadael camdriniwr, bod y dioddefwr hwnnw'n debygol o fod mewn mwy o berygl os yw'r troseddwr yn dod i wybod am hyn.

**Argymhelliad 27: Cefnogaeth i Deuluoedd, Ffrindiau, Cymdogion a'r Cyhoedd: Ymgyrch Cyhoeddusrwydd a Gynigir gan Llywodraeth Cymru:**

Mae'r panel yn gwneud cais ger bron Llywodraeth Cymru bod yr ymgyrch cyhoeddusrwydd mewn perthynas â Cham-drin Domestig yn cynnwys cyfeiriadaeth at gefnogi'r teulu, ffrindiau a'r cyhoedd i adrodd am gamdriniaeth a'r dull o wneud hynny.

**Argymhelliad 28: Cefnogi'r cyhoedd i adrodd am Gam-drin Domestig: Argymhelliad Cenedlaethol: Y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru.**

Rydym yn argymhell bod trafodaethau cenedlaethol ynglŷn â datblygiadau pellach wedi'u hanelu at atal Cam-drin Domestig, ac yn cynnwys sut y gall perthnasau, cymdogion, ffrindiau a'r cyhoedd eu hannog a'u cefnogi i adrodd am gamdriniaeth.

## ADOLYGIAD DYNLADDIAD DOMESTIG SIR Y FFLINT

### Cylch Gorchwyl

#### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynir yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint mewn ymateb i farwolaeth Marie ar 14 Medi, 2014.
- 1.2 Comisiynwyd yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn oherwydd bod y farwolaeth yn bodloni'r meini prawf a ddiffinnir yng nghanllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o ddigwyddiad yn cynnwys 'unigolyn a oedd yn perthyn iddo neu oedd wedi bod mewn perthynas agos ag o' (y Swyddfa Gartref 2011:5). Mae hyn yn ofyniad statudol dan Ddeddf Cam-drin Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004.

#### 2. Y Cadeirydd ac Aelodaeth

- 2.1 Penodwyd Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel Cadeirydd y panel adolygu. Ni chafodd Jenny Williams gyswllt gydag unrhyw aelod o'r teulu nac ychwaith unrhyw ferch a ddaeth ymlaen. Mae hi'n gweithredu fel cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ac yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

Cynrychiolir y sefydliadau canlynol ar y panel:

Sefydliad
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig
Cyngor Sir y Fflint
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Heddlu Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru



### **3. Pwrpas Panel Arbenigol Adolygiad Dynladdiad Domestig**

- 3.1 Sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol ag arfer orau, gyda dadansoddiad a chasgliadau effeithiol o'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r achos.
- 3.2 Sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu o'r dynladdiad domestig o ran y ffordd mae gweithwyr proffesiynol lleol a sefydliadau yn gweithio'n unigol neu'n cydweithio i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn cynnwys eu plant.
- 3.3 Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut ac o fewn pa derfynau amser y byddent yn cael eu gweithredu, a beth sy'n debygol o newid o ganlyniad.
- 3.4 Gweithredu'r gwersi hynny i ymatebion gwasanaeth yn cynnwys newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau fel y bo'n briodol ac
- 3.5 Atal dynladdiad domestig o ganlyniad i drais domestig a gwella ymatebion gwasanaeth i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy weithio'n well o fewn, a rhwng asiantaethau.
- 3.6 Nodi'r angen i newid er mwyn lleihau risg y fath drychinebau rhag digwydd yn y dyfodol er mwyn atal dynladdiad trais domestig a gwella ymatebion gwasanaeth i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy weithio'n well o fewn, a rhwng asiantaethau.

### **4. Cwmpas yr Adolygiad**

- 4.1 Bydd y Panel yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Mai, 2005 ac 14 Medi, 2014.
- 4.2 Gwnaed pob cyswllt arwyddocaol a pherthnasol gyda'r ymadawedig (yn ystod cyfnod ei pherthynas gyda'r cyflawnwr); y cyflawnwr; ac unrhyw unigolyn arall a nodwyd o fewn cwmpas yr adolygiad.
- 4.3 Bydd sefydliadau sydd wedi dod i gyswllt sylweddol gyda'r unigolion a nodir yn adran 4.2 yn cael cais i gymryd rhan yn y broses adolygu, ac efallai bydd gofyn iddynt gwblhau Arolwg Rheoli Annibynnol, fel y cyfeiriwyd gan y Panel.

### **5. Pwrpas yr Arolygon Rheoli Annibynnol**

- 5.1 Bydd y meysydd canlynol yn cael cyfeiriadaeth yn yr Arolygon Rheoli Annibynnol a'r Adroddiad Trosolwg:
- 5.2 Pennu a oedd teulu, ffrindiau neu gydweithwyr yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad treisgar gan y cyflawnwr honedig tuag at y dioddefwr, cyn y dynladdiad.

- 5.3 Pennu a gafodd y dioddefwyr neu ei theulu/frindiau/cydweithwyr unrhyw rwystrau wrth adrodd am gamdriniaeth yn Sir y Fflint neu du hwnt, yn cynnwys a oedd hi'n gwybod sut i adrodd am gamdriniaeth ddomestig petai'n dymuno gwneud hynny.
- 5.4 Pennu a oedd cyfleoedd i weithwyr proffesiynol 'holi'n rheolaidd' am unrhyw ddigwyddiad o gam-drin domestig a brofwyd gan y dioddefwyr oedd wedi cael eu methu.
- 5.5 Pennu a oedd cyfleoedd ymyrraeth asiantaeth a fethwyd mewn perthynas â cham-drin domestig yn erbyn y dioddefwr neu'r cyflawnwr honedig.
- 5.6 Dylai'r adolygiad nodi unrhyw ofynion hyfforddi neu sesiynau codi ymwybyddiaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig.
- 5.7 Bydd yr adolygiad hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion o gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n berthnasol i'r dioddefwr, y cyflawnwr honedig e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## **6. Rhannu Gwybodaeth**

- 6.1 Dylai partneriaid a sefydliadau sydd wedi cael cais gan y Panel i rannu gwybodaeth gyfeirio at Ganllawiau Statudol y Swyddfa gartref ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig, os oes materion cydsynio yn codi.
- 6.2 Bydd ymholiadau cyfreithiol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth yn cael eu cyfeirio atynt gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir y Fflint, a dylent hefyd gael eu hystyried gan uned gyfreithiol sefydliadau priodol.

## **7. Cyhoeddi**

- 7.1 Bydd y Panel yn dilyn canllaw'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chyhoeddi. Mae'n ofyniad bod yr Adroddiad Trosolwg yn cael ei wneud yn gyhoeddus.
- 7.2 Bydd y Panel yn nodi unigolion y dylai weld yr adroddiad a'r adroddiad trosolwg cyn eu cyhoeddi.

## **8. Pa mor aml y cynhelir Cyfarfodydd**

- 8.1 Y Cadeirydd fydd yn galw'r cyfarfodydd. Bydd gwaith gweinyddol a gwaith cydlynu'r adroddiad yn cael ei wneud gan Gyngor Sir y Fflint.

## Atodiad 2

Acronym	Ystyr
ABUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
BCUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
BT	British Telecom
CAADA DASH	Cydlynu yn erbyn Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu
ADD	Adolygiad Dynladdiad Domestig
GP	Meddyg Teulu
GPC	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
CCH	Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu
PTSD	Anhwylder Straen wedi Trawma
P1	Cyfeirnod adnabod y troseddwr
RAF	Yr Awyrlu Brenhinol
Adran 47	Talfyriad gofyniad i ymchwilio i bryderon diogelu plant dan Ddeddf Plant 1989 1989
TRBL	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
V1, V2, V3, V4, V5	Cyn-wragedd neu gyn-bartneriaid P1

